

# Pecyn Dogfennau Cyhoeddus



**Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth**

**Mid Wales Corporate Joint Committee**

---

Meeting Venue  
Gweminar Chwyddo

---

Meeting Date  
**Dydd Llun, 29 Ionawr 2024**

---

Meeting Time  
**9.30 am**

---

For further information please contact  
**Nicola Williams**  
Julie Williams  
nicola.williams@powys.gov.uk /  
julie.williams2@powys.gov.uk/

Issue Date 24-1-24

## **AGENDA**

<b>1.</b>	<b>CROESO A RHAGYMDRODD</b>
-----------	-----------------------------

<b>2.</b>	<b>YMDDIHEURIADAU</b>
-----------	-----------------------

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb –

Emma Palmer, Prif Swyddog Gweithredol

<b>3.</b>	<b>DATGANIADAU O DDIDDORDEB</b>
-----------	---------------------------------

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol yn ymwneud a materion i'w hystyried ar yr agenda.

<b>4.</b>	<b>CYFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF</b>
-----------	--------------------------------------

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ddydd Iau, 12 Hydref 2023, fel rhai cywir.

(Tudalennau 1 - 12)

<b>5.</b>	<b>ADRODDIAD ALLDRO CYLLID Y CJC AR Y FFURFLEN FLYNYDDOL AR GYFER 2022/23</b>
-----------	---

Cymeradwyo Adroddiad Alldro Cyllid Cydbwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru ar y Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2022-23 a gyflwynwyd gan Duncan Hall, Justin Davies a'r Archwilwyr.

(Tudalennau 13 - 24)

<b>6.</b>	<b>ARCHWILIO CYMRU - ADRODDIAD CYDBWYLLGOR CORFFORAETHOL</b>
-----------	--

Gofynnir i'r CJC ystyried sut y gall fwrw ymlaen â'r argymhellion a wnaed yn Adroddiad Cryno terfynol Archwilio Cymru.

(I Ddilyn)

<b>7.</b>	<b>CYLLIDEB CJC 2024-25</b>
-----------	-----------------------------

Derbyn adroddiad gan Duncan Hall, Swyddog Adran 151 ar y gyllideb arfaethedig ar gyfer CJC Canolbarth Cymru 2024-25.

(I Ddilyn)

<b>8.</b>	<b>DIWEDDARIAD AR YR YMGYNGHORIAD AR Y CYNLLUN CORFFORAETHOL</b>
-----------	--

Ystyried a chymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol Drafft yn dilyn y cyfnod ymgynghori a gyflwynwyd gan Paul Griffiths, Ymgynghorydd.

(Tudalennau 25 - 54)

<b>9.</b>	<b>ADRODDIAD GAN IS-BWYLLGOR Y CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL</b>
-----------	---

Derbyn yr adroddiad ar ddiweddariad yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol, ynghyd â'r atodiadau cysylltiedig a gyflwynwyd gan Ann Elias.



(Tudalennau 55 - 76)

<b>10.</b>	<b>ADRODDIAD AR Y CYNNYDD MEWN PERTHYNAS A'R IS-BWYLLGOR LLESIANT ECONOMAIDD</b>
------------	--

Derbyn adroddiad ar y cynnydd mewn perthynas â sefydlu Is-bwyllgor Llesiant Economaidd a gyflwynwyd gan Carwyn Jones-Evans.

(I Ddilyn)

<b>11.</b>	<b>ADRODDIAD GAN YR IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO DATBLYGU STRATEGOL</b>
------------	--

Derbyn adroddiad gan yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol a gyflwynwyd gan Sarah Groves-Phillips.

(Tudalennau 77 - 84)

<b>12.</b>	<b>ADRODDIAD AR SAFONAU'R GYMRAEG AR GYFER CJC CANOLBARTH CYMRU</b>
------------	---

Derbyn adroddiad ar Gydymffurfiaeth CJC Canolbarth Cymru â Safonau'r Gymraeg.

(Tudalennau 85 - 88)

<b>13.</b>	<b>UNRHYW FATER ARALL</b>
------------	---------------------------

I dderbyn unrhyw fusnes arall.

<b>14.</b>	<b>DYDDIADAU CYFARFODYDD CJC CANOLBARTH CYMRU</b>
------------	---

Dydd Iau, 9 Mai 2024, 2pm i 3.30pm

(CCB) Dydd Iau, 18fed Gorffennaf, 2024, 10am i 11.30am

Dydd Mawrth, 22 Hydref 2024, 2pm i 3.30pm





## COFNODION

### CYFARFOD O GYD-BWYLLGOR CORFFORAETHOL CANOLBARTH CYMRU

A GYNHALIWYD DDYDD IAU 12FED HYDREF 2023

11am - 12.30pm dros Zoom

#### PRESENNOL

##### Cyngor Sir Powys

Y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt, Arweinydd / Cadeirydd CBC Canolbarth Cymru

Diane Reynolds, Cyfarwyddwr Dros Dro, Gwasanaethau'r Economi a'r Gymuned (DR)

Clive Pinney, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd / Swyddog Monitro'r CBC

Nicola Williams, Rheolwr Cyflawni'r Rhaglen Strategol (NW)

Julie Williams, Swyddog Cymorth Rhaglen (*yn cymryd nodiadau*)

##### Hefyd yn bresennol:

Paul Griffiths, Ymgynghorydd (PG)

Sara-Jane Byrne, Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru (SJB)

##### Cyngor Sir Ceredigion

Y Cynghorydd Sir Bryan Davies, Arweinydd / Is-gadeirydd CBC Canolbarth Cymru

Eifion Evans, Prif Weithredwr (EE)

Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol (BR)

Duncan Hall, Swyddog Adran 151 Swyddog Corfforaethol Arweiniol: Cyllid a Chaffael (DH)

Elin Prysor, Swyddog Corfforaethol Arweiniol - Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro) (EP)

##### Hefyd yn bresennol:

Sarah Groves-Phillips, Rheolwr Polisi Cynllunio, yr Economi ac Adfywio (SGP)

Ann Elias, Rheolwr Prosiectau a Rhaglen TraCC (AE)

Carol Thomas, Cyfieithydd

##### Bannau Brycheiniog

Y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe, Is-gadeirydd APCBB (GR)

Gareth Jones, Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle (GJ)

1.	CROESO A CHYFLWYNIADAU
----	------------------------

Croesawyd pawb i Gyfarfod Ffurfiol o Gyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru gan y Cadeirydd, a chyflwynwyd Diane Reynolds a Sara-Jane Byrne.

2.	YMDDIHEURIADAU
----	----------------

**Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y canlynol -**

Cyngor Sir Powys

Jack Straw, Prif Weithredwr Dros Dro

Nigel Brinn, Cyfarwyddwr Gweithredol, yr Economi a'r Amgylchedd

Y Cynghorydd Sir Jake Berriman

Cyngor Sir Ceredigion

Carwyn Jones-Evans, Rheolwr Gwasanaeth Twf a Datblygiadau Mawr

Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol: Cyllid Craidd

3.	DATGAN BUDDIANNAU
----	-------------------

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau mewn perthynas â materion i'w hystyried ar yr agenda.

4.	COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF
----	-------------------------------

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a CCB Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru a gynhaliwyd ar 31<sup>ain</sup> Gorffennaf 2023.

**Cynigiodd y Cynghorydd Sir Bryan Davies y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod a CCB y Cyd-bwyllgor a gynhaliwyd ar 31<sup>ain</sup> Gorffennaf 2023 fel cofnod cywir; eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Gareth Ratcliffe, ac fe'u cytunwyd hefyd gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt.**

5.	LLYTHYR ARCHWILIO CYMRU "SYLWEBAETH AR GYNNYDD CBC CANOLBARTH CYMRU - SARA-JANE BYRNE, RHEOLWR ARCHWILIO
----	--

Roedd llythyr Archwilio Cymru, dyddiedig 21<sup>ain</sup> Awst 2023, wedi cael ei rannu eisoes gydag aelodau'r CBC.

Croesawyd Sara Jane Byrne, Archwilio Cymru i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, a chyflwynodd grynodedb o brif ganfyddiadau'r llythyr i aelodau a swyddogion y CBC. Nodwyd y canlynol:

Penodwyd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn Archwilydd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol. Diben y llythyr yw deall yn well cynnydd y CBC mewn perthynas â'r gwaith Archwilio cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod Hydref 2022, a gyflwynwyd i'r CBC yn ystod Gwanwyn 2023 ac eto ar ddechrau Haf 2023.

Cydnabyddir y bydd y gwaith wedi symud ymlaen ers dyddiad y llythyr, ond tynnwyd sylw at nifer o bwyntiau -

- Deall nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer CBC -

Adeg cyflawni'r gwaith, cymysg oedd y sylwadau o ran gwerth CBC ond roedd y CBC wedi sylweddoli fod ganddo rwymedigaeth gyfreithiol ac roedd yn symud ymlaen gyda'r hyn yr oedd angen ei gyflawni.

Pwysleisiodd y Cyng. Bryan Davies y teimladau o rwystredigaeth gyda pharodrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer corff newydd ar ran pob CBC, nid Canolbarth Cymru'n unig, yn enwedig mewn perthynas â materion o ran statws ariannol. Nododd y Cyng. James Gibson Watt taw ni yw'r unig ddau ALI yn CBC Canolbarth Cymru, ac mae gennym drefniadau ar gyfer gweithio ar y cyd yn eu lle'n barod.

- Trefniadau llywodraethu sy'n esblygu –

Roedd y trefniadau craidd yn eu lle, ar y pryd dim ond un Is-bwyllgor oedd yn bodoli ac roedd Archwilio Cymru'n olrhain eu disgwyliadau y dylid cychwyn trefniadau llywodraethau wrth i bethau symud ymlaen.

- Cynlluniau'r CBC i gyflawni nodau Llywodraeth Cymru a bodloni eu rhwymedigaethau statudol –

Roedd y CBC wrthi'n datblygu ei flaenoriaethau ac roedd yn gadarnhaol gweld ei fod yn gwneud cynnydd, yn enwedig o ran y swyddogaeth Cynllunio Datblygu Strategol a chytunwyd i sefydlu tîm neilltuol i gefnogi hynny.

Mae Archwilio Cymru'n cydnabod y problemau o ran statws ariannol a Chyfarwyddyd CTR ond mae'n dymuno gweld mwy o gynnydd mewn perthynas â'r elfen CTR. Cynhaliwyd Gweithdy CBC yn ddiweddar, ac mae Archwilio Cymru'n awyddus i glywed pa gynnydd a wnaethpwyd hyd yma. (Mae hyn ar yr agenda heddiw).

- Y berthynas rhwng y CBC a'r trefniadau partneriaeth presennol –

Cynigiodd yr Archwilydd Cyffredinol nifer o sylwadau ar gymhlethdod y dirwedd a'r awydd i ddeall sut y bydd y cyrff corfforaethol hyn i gyd yn cydweithio. O'r Cynllun Corfforaethol drafft ar y pryd, mae'r CBC yn cydnabod bod angen iddo gydweithio gyda'r holl bartneriaethau gwahanol, ac eto bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn disgwyl gwaith pellach mewn perthynas â hyn, a sut i fanteisio i'r eithaf ar gyfraniad Bannau Brycheiniog.

- Cynlluniau'r CBC i fodloni'r gofynion o dan Ddeddf LICD, gan gynnwys gosod amcanion lles –

Ar y pryd, nid oedd y CBC wedi cyhoeddi ei amcanion Lles, er y derbyniwyd sylwadau ar y nodau lles drafft. Roedd Archwilio Cymru'n awyddus i dynnu sylw at ddyletswydd statudol y CBC i arfer egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, a'r cyfle sy'n dod yn sgil hynny.

Mae Archwilio Cymru'n bwriadu cyhoeddi Adroddiad Blynyddol yn ystod yr wythnosau nesaf, a bydd yn cynnwys crynodeb lefel uchel o ganlyniadau cronus pedwar o'r CBC, ac sy'n amlinellu disgwyliadau'r Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â'r CBC ar gyfer y 12/18 mis nesaf.

Canlyniadau cyffredinol yw'r rhain, oherwydd cydnabyddir fod y pedwar CBC i gyd wedi cyrraedd pwyntiau gwahanol, ac fel y cyfryw, bydd rhai agweddau'n fwy perthnasol nag eraill, felly mae angen eu darllen ar y cyd â'r llythyrau unigol.

Anfonir copi ymlaen llaw gwaharddedig o'r Adroddiad Cenedlaethol at bob CBC cyn ei gyhoeddi.

Nododd y Cynghorydd Sir Bryan Davies unwaith eto'r rhwystredigaeth sy'n gyffredin i'r pedwar CBC ynghylch Llywodraeth Cymru, a gofynnodd am sicrwydd yr anfonwyd yr adborth yma atynt?

Cadarnhaodd SJB fod rhwystredigaethau'r CBC wedi cael eu cyfleu i Lywodraeth Cymru, ac maen nhw hefyd wedi gweld y pedwar llythyr a anfonwyd at bob CBC. Bydd y materion hyn hefyd yn ymddangos yn yr Adroddiad Cenedlaethol, y cyfeiriwyd ato'n gynharach.

Hyd yn hyn, nododd SJB fod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o ac yn cydnabod bod gwersi i'w dysgu.

Diolchodd y Cadeirydd i SJB a nododd ddadansoddiad y pedwar CBC, y cyfansoddiad gwahanol a nifer yr awdurdodau sy'n rhan o bob CBC.

Cyfeiriodd y Cadeirydd eto, o safbwynt CBC Canolbarth Cymru, at werth y CBC, o safbwynt cael dau Awdurdod Lleol ac awdurdod Bannau Brycheiniog yn cydweithio lle mae cysylltiadau cydweithio eisoes ar y gweill ar ystod eang o faterion, gan gynnwys Addysg.

Nododd y Cadeirydd, fod y CBC yn ceisio osgoi dyblygu gwaith, ac mae'n cydnabod fod LIC wedi rhoi geometreg amrywiol i gyflawni eu gwaith. Caiff y CBC ei addasu er mwyn gweithio er budd pennaf trigolion Canolbarth Cymru ac er budd yr Awdurdodau Lleol ac i sicrhau nad yw'r gwaith yn dargyfeirio o'r hyn sy'n gweddu orau i'r ardal ar lefel leol.

Cadarnhaodd SJB bod gofyn i'r CBC gyflawni swyddogaethau a phwerau statudol, ond hyblygrwydd oedd un o gysyniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer pob CBC. Bydd yr Adroddiad Cenedlaethol yn adlewyrchu'r hyn a ganfuwyd flwyddyn yn ôl er



enghraifft, ond yn ddiweddar mae pethau wedi bod ychydig yn fwy optimistaidd wrth ddod i gasgliad ynghylch y statws ariannol a materion eraill.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe unwaith eto at y ffaith fod Bannau Brycheiniog yn croesi nifer o CBC, ac effaith hyn o ran y gwaith sydd ei angen gan swyddogion, a nifer yr aelodau ar Is-bwyllgorau'r CBC. Byddai'n gwerthfawrogi cyfarwyddyd/sefydlogrwydd mewn perthynas â Bannau Brycheiniog.

Mae SJB yn cydnabod y bydd y Parciau Cenedlaethol yn gweithio'n unol â rôl a bennir iddynt, ac wrth ystyried ehangder daearyddol Bannau Brycheiniog a'u dyletswyddau neilltuol nhw, mae'n bwysig fel CBC eu bod yn manteisio i'r eithaf ar hynny efallai tu hwnt i agweddau megis Cynllunio Datblygu Strategol, lle mae'r rôl yn allweddol. Mae Archwilio Cymru am sicrhau fod y trafodaethau hyn yn digwydd, a bod y Parciau Cenedlaethol yn cael eu hymgysylltu fel bo'n briodol, wrth ystyried eu cyfrifoldebau ehangach.

Nododd y Cynghorydd Sir Bryan Davies, hwyrach y bydd Parc Cenedlaethol arall (yn y Gogledd) yn dod yn aelod o'r CBC.

Nid oedd Archwilio Cymru'n cynnig sylw ar hynny'n benodol, ond byddai Llywodraeth Cymru'n fwy ymwybodol o ran y deinameg a'r goblygiadau ymarferol.

Mynegodd EE bryder mewn perthynas â'r iaith a ddefnyddir yng nghyflwyniad cynharach Archwilio Cymru sef, "disgwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol."

Mae'n rhaid i'r CBC weithio'n unol â pharmedrau'r ddeddfwriaeth, ac mae'n atebol yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Cytunir y caiff y CBC ei reoleiddio gan Archwilio Cymru, ond mae'r iaith a ddefnyddiwyd mewn perthynas â manteisio i'r eithaf ar fuddion, ar ddisgresiwn aelodau o Fwrdd y CBC. Mewn gohebiaeth ddiweddar gyda Julie James AS, y Gweinidog ar gyfer Newid Hinsawdd, roedd yn glir i'r sefydliadau partner bod yn rhaid defnyddio'r CBC i ychwanegu gwerth ar gyfer trethdalwyr y rhanbarth, ac felly mae'n rhaid i'r disgresiwn fod gyda'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a chynrychiolydd Bannau Brycheiniog. Cytunwyd fod CBC Canolbarth Cymru'n atebol i Archwilio Cymru, ond dim ond trwy brofi ei fod yn ychwanegu gwerth.

Mae SJB yn cydnabod y pwynt yma, a nododd eto fod Archwilio Cymru'n awyddus i weld cynnydd mewn perthynas â swyddogaethau statudol pob CBC, ac y gwneir y defnydd gorau o'r adnoddau hynny. Bydd yr Adroddiad Cenedlaethol yn delio gyda llawer o'r agweddau hyn.

6.	DULL ARCHWILIO CYD-BWYLLGOR CORFFORAETHOL CANOLBARTH CYMRU 2023 - SARA-JANE BYRNE, RHEOLWR ARCHWILIO
----	--

Llythyr sy'n olrhain dull archwilio'r CBC sy'n dilyn o lythyr cynharach ynghylch yr archwiliad ariannol.

Bydd Archwilio Cymru'n monitro cynnydd y CBC dros y flwyddyn sydd i ddod a bydd mynd i gyfarfodydd a gweld dogfennau'n helpu yn hyn o beth. Mae'n olrhain y ffi fach, sy'n dangos y gwaith dros y flwyddyn honno.

Nodwyd y byddai wedi bod yn fanteisiol i wybod am ffi Archwilio Cymru ar ddechrau'r flwyddyn ariannol er mwyn ei nodi yn y gyllideb yn y lle priodol.

Yn y lle cyntaf, ni chafodd y CBC wahoddiad i drafod y ffioedd, ac yn ail, cyhoeddwyd y ffioedd yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae'n rhaid i Archwilio Cymru gydnabod fod y disgrisiwn gan y Bwrdd, a gyda'r pwysau ariannol sy'n wynebu pob un o'r tair asiantaeth partner dros y flwyddyn nesaf, mae'n rhaid cael sicrwydd o ran yr hyn y mae angen cyllidebu ar ei gyfer.

Roedd SJB yn cydnabod hyn, a nododd bod Archwilio Cymru yn awyddus i orffen darn o waith a gyllidwyd gan Gronfa Gyfunol Cymru cyn penderfynu pa waith oedd ei angen a chyhoeddi rhybudd am y gwaith hwnnw. Cynhaliwyd trafodaethau eisoes oddi mewn Archwilio Cymru i sicrhau y rhoddir rhybudd ymlaen llaw mewn perthynas ag unrhyw ffioedd yn y dyfodol.

7.	CBC – DRAFFT TERFYNOL Y CYNLLUN CORFFORAETHOL / ADBORTH O WEITHDY'R CBC AR DDYDD GWENER, 6ED HYDREF 2023
----	--

Dylid nodi yn y cofnodion y diolchwyd i Paul Griffiths am ei waith rhagorol mewn perthynas â llunio Cynllun Corfforaethol drafft y CBC.

Ar ôl ei gymeradwyo heddiw, caiff Cynllun Corfforaethol Drafft y CBC ei ddsbarthu ar ffurf drafft i ymgynghori arno. Wedyn caiff y ddogfen ei chyfieithu, ac wedyn bydd yn destun ymgynghoriad ffurfiol am gyfnod penodol.

Un peth pwysig i'w gofio, yw y cafwyd ymgynghoriad mewnol helaeth, ar ffurf cyfuniad o'r Cynlluniau Corfforaethol a blaenoriaethau Corfforaethol y tri sefydliad Partner sydd eisoes yn eu lle, ac i'r perwyl hyn, eto diolchwn i Paul Griffiths am gyfuno'r tri maes yma.

Bydd Cynllun Corfforaethol y CBC yn fframwaith ar gyfer datblygiadau'r dyfodol. Mae'r CBC yn cynnwys tri sefydliad, ac mae'r cynllun drafft yn ceisio sicrhau y caiff hyn ei ymwreiddio ynddo heb ddyblygu neu wrthddweud yr hyn sy'n bodoli eisoes.

Cynhaliwyd gweithdai dros y misoedd diwethaf, a mynegwyd sylwadau sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun drafft, a chaiff sylwadau pellach eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori.

Caiff sylwadau newydd eu rhannu ymhlith aelodau'r Bwrdd a gwneir penderfyniadau o ran diwygiadau priodol a'r amserlen yn barod erbyn cyfarfod Ffurfiol nesaf CBC Canolbarth Cymru ar ddydd Iau, 18<sup>fed</sup> Ionawr 2024. Disgwylir y caiff y Cynllun Corfforaethol ei gadarnhau ac y caiff ei rannu gyda'r cyhoedd ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd.

Siaradodd PG yn fyr am faterion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gyfeirio eto at y ffaith taw cyfrifoldeb Bwrdd y CBC yw penderfynu pa waith i'w wneud ac i ba raddau. Hefyd mae angen ystyried materion megis adnoddau ac amseru.

Wrth gloi, ac ar nodyn cadarnhaol, y bwriad yw y bydd y Cynllun Corfforaethol yn ddogfen werthfawr ar gyfer y CBC, ac y caiff ei ddefnyddio fel fframwaith ar gyfer cyfathrebu gyda'r cyhoedd ehangach, ynghyd â'r Rheoleiddwyr a phartneriaid eraill. Diolchodd y Cynghorydd Sir Bryan Davies i bawb am weithdy rhagorol y CBC a gynhaliwyd yr wythnos diwethaf yn Neuadd y Sir, Llandrindod, a nododd y cafodd yr holl sylwadau eu cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol Drafft. Felly, roedd yn hapus i gynnig argymhelliad ein bod ni'n cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol drafft heddiw, ar yr amod y gellir ystyried ac ychwanegu unrhyw sylwadau newydd cyn cymeradwyo'r Cynllun terfynol.

## ARGYMHELLIAD

- **Mae'r CBC yn cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol drafft yn barod er mwyn cynnal yr ymarfer ymgynghori.**

**Mae'r Cynghorydd Sir Bryan Davies yn cynnig y dylid cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol drafft er mwyn cynnal yr ymarfer ymgynghori, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe.**

8.	DIWEDDARIAD O RAN CYLLID Y CBC
----	--------------------------------

Cyflwynwyd yr Adroddiad gan y Swyddog Adran 151.

### 1. Sefyllfa alldro'r flwyddyn ariannol ddiwethaf 2022-23

Rhennir y gyllideb hon rhwng y Gyllideb Gyffredinol sy'n ymwneud â Cheredigion a Phowys ac wedyn y Gyllideb Cynllunio Strategol.

Mae'r ddwy gyllideb yn dangos sefyllfa o danwariant, yn rhannol oherwydd bod y CBC yn ifanc eto, ac roedd cyfyngiadau yn eu lle wrth aros am gadarnhad mewn perthynas ag adhawlio TAW.

Cyflwynwyd Crynodeb o Atodiad A i'r cyfarfod.

Dylem gael cadarnhad o sefyllfa archwiledig y CBC erbyn y cyfarfod ar 18<sup>fed</sup> Ionawr 2024.

### 2. Cynnig diweddariad i delerau cyllideb y flwyddyn gyfredol ar gyfer 2023-24

Cymeradwywyd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn barod, ond mae angen cymeradwyo diwygiadau arfaethedig o dan Atodiad B.

Ymhlith y rhain mae costau mewn perthynas â staffio a ffioedd Archwilio Cymru, gyda rhai mân addasiadau mewn perthynas ag ymrwymadau presennol ac amcanestyniadau, e.e., cymorth democrataidd a chyfieithu.

Cynigir defnyddio ychydig o'r arian wrth gefn a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol, ar y cyllidebau Cyffredinol a Strategol fel y nodir yn yr Adroddiad.

## ARGYMHELLION

### Adran 9 yn yr Adroddiad

**9.1 a Nodi'r alldro o ran Cyllideb Gyffredinol CBC Canolbarth Cymru ar gyfer 2022-23, gwariant o £61,342 fel y nodir yn Atodiad B.**

**b Cymeradwyo Cyllideb Gyffredinol CBC Canolbarth Cymru ar gyfer 2023-24, sef £146,255 fel y nodir yn Atodiad B.**

**Pleidleisiodd y Cynghorydd Sir James Gibson Watt a'r Cynghorydd Sir Bryan Davies i argymhell yr uchod yn Adran 9.1a o'r Adroddiad.**

**Pleidleisiodd y Cynghorydd Sir Bryan Davies, Y Cynghorydd Sir James Gibson Watt a'r Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe o blaid argymhell Adran 9.1b yr Adroddiad.**

9.	AELODAETH IS-BWYLLGORAU'R CBC - BANNAU BRYCHEINIOG
----	--

Nodwyd y derbyniwyd cais gan awdurdod Bannau Brycheiniog i gael ei gynnwys ym mhob is-bwyllgor ar gyfer yr holl elfennau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth.

I gadarnhau felly, mae tri philer yn tanategu'r CBC –

1. Cynllunio Datblygu Strategol lle mae'n rhaid i Fannau Brycheiniog gael mewnbwn, ac mae hynny ar waith.
2. Datblygu Economaidd ac Adfywio.
3. Cynllunio Trafnidiaeth Ranbarthol.

Casglodd y trafodaethau, ynghyd â'r ddeddfwriaeth, nad oedd angen mewnbwn gan Fannau Brycheiniog yn y Grŵp Datblygu Economaidd, ac nid yw ychwaith yn cynnwys y gofyn ar gyfer y cyswllt Trafnidiaeth ar draws Canolbarth Cymru. Mae'r cyfrifoldebau statudol ar gyfer y meysydd hyn gyda CS Powys a CS Ceredigion yn unig, ac felly nid yw'n briodol i Fannau Brycheiniog eistedd fel rhan o unrhyw drafodaethau oddi mewn i'r grwpiau hyn.

Cafodd y penderfyniad hwn ei gyfleu i Fannau Brycheiniog a derbyniwyd hyn.

I gadarnhau felly, bydd Bannau Brycheiniog yn parhau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â'u presenoldeb nhw o ran Cynllunio Datblygu Strategol ond nid gyda'r ddau is-bwyllgor arall.

Mae GJ, Bannau Brycheiniog yn hapus gyda'r argymhelliad ond i gadarnhau mae cysylltiad clir rhwng ffrydiau Cynllunio Datblygu Strategol, Trafnidiaeth Ranbarthol a Lles Economaidd, felly lle bo'n briodol dylai'r Parc Cenedlaethol gael ei gynnwys mewn trafodaethau ond nid o reidrwydd fel aelod o'r is-bwyllgorau ffurfiol.

Mae'r Parc Cenedlaethol yn meddu ar arbenigedd mewn meysydd penodol o ran ychwanegu gwerth i'r CBC, e.e. newid hinsawdd a bioamrywiaeth.

Nododd y Cynghorydd Sir Bryan Davies ei fod yn hapus i gynnwys Bannau Brycheiniog mewn trafodaethau, yn unol ag awgrym Gareth Jones.

Cadarnhaodd y Cadeirydd bod angen cynnwys Bannau Brycheiniog mewn trafodaethau, ond heb fod yn aelodau ffurfiol o'r Is-bwyllgorau.

## ARGYMHELLIAD

**Cynigiodd y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe y dylid derbyn cymeradwyo eitem 9 yr agenda, h.y. ar ôl trafodaethau mewn perthynas â deddfwriaeth, nad oedd angen cael mewnbyn gan Fannau Brycheiniog yn y Grŵp Datblygu Economaidd, nac ychwaith mewn perthynas â'r Cyswllt Trafnidiaeth ar draws Canolbarth Cymru ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Sir Bryan Davies.**

10.	DIWEDDARIAD GAN IS-BWYLLGORAU (CTR / CDS / LLES ECONOMAIDD)
-----	---

Cafwyd crynodeb o Adroddiad Archwilio Cymru gan EE, oedd yn codi pryderon ynghylch peidio gwneud cynnydd o safbwynt pob Is-bwyllgor.

Yn gyntaf, i gofnodi cydnabyddiaeth ar gyfer y gwaith a gyflawnwyd gan nifer o Swyddogion o ran symud yr Is-bwyllgorau hyn ymlaen hyd yn hyn.

Rhannwyd y pwysau a'r amserlenni gyda'r Bwrdd, a'r bwriad i wneud cynnydd pellach gyda'r gwaith angenrheidiol o ran creu Cynllun Strategol Rhanbarthol gyda Sarah Groves-Phillips, Rheolwr Polisi Cynllunio yn arwain tîm rhithiol mewn perthynas â hyn.

Yn ail, mae'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol dan gyfarwyddyd Ann Elias, Rheolwr Prosiectau a Rhaglenni TraCC ac mae dogfennau i'w hystyried yn cael eu paratoi.

Cynhelir cyfarfod nesaf Is-bwyllgor y Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol ar 23<sup>ain</sup> Hydref 2023, a chynhelir Cyfarfod Ffurfiol nesaf CBC Canolbarth Cymru ar 18<sup>fed</sup> Ionawr 2024 felly nid yw'n bosibl ceisio cymeradwyaeth trwy'r broses arferol o wneud penderfyniadau cyn y dyddiad terfynol, sef 31<sup>ain</sup> Hydref 2023.

- **Cais i awdurdodi dirprwyo penderfyniadau i gymeradwyo'r cyflwyniad er mwyn bodloni'r dyddiad terfyn.**
- **Hefyd rydym yn gofyn am gyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith yna.**

Yn drydydd, bydd gwaith ym maes Lles Economaidd yn canolbwyntio ar waith mewn perthynas â meysydd y fargen twf, a bydd Llywodraeth Cymru'n comisiynu OECD a threfnwyd digwyddiad ar gyfer 27<sup>ain</sup> Hydref 2023 at y diben hwn.

**Mae dau argymhelliad i'w hystyried –**

- 1. Cymeradwyo gweithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol.**
- 2. Gwneud cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru.**

Nododd y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe bryder mewn perthynas ag amseru critigol adborth y Swyddogion o ran y ddogfen erbyn diwedd Hydref 2023 a gofynnodd am ddyrannu digon o amser h.y. i ddarparu Blaenraglen Waith mewn perthynas â hyn.

## **ARGYMHELLIAD**

- 1. Cymeradwyo gweithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol.**
- 2. Gwneud cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru.**

**Cynigiodd y Cynghorydd Sir Bryan Davies y dylid derbyn yr argymhelliad hwn, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Sir James Gibson Watt.**

11.	<b>CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL (CDS) LLYTHYR GAN Y GWEINIDOG</b>
-----	---

Fel y nodwyd yng nghofnodion cyfarfod diwethaf y CBC, roedd Swyddogion wedi ysgrifennu at Julie James AS, Gweinidog Newid Hinsawdd am eglurhad mewn perthynas â'r sefyllfa ar Gynllunio Datblygu Strategol.

Roedd y Gweinidog wedi ymateb i'r llythyr, ac mae'r mater hwn ar yr agenda er gwybodaeth.

12.	<b>HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO DRAFFT – RHEOLIADAU SAFONAU'R GYMRAEG RHIF 1</b>
-----	--

Fel endid newydd, bydd gofyn i'r CBC gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg.

Mae llythyr a dderbyniwyd gan y Comisiynydd yn olrhain y gofynion, ac mae'r Cynghorydd Sir Bryan Davies yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda Phowys ar y gofynion hyn, ac i hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y rhanbarthau.

Nododd y Swyddog Monitro bod llythyr y Comisiynydd yn crybwyll bod cyfnod ymgynghori wedi cychwyn, ac y bydd yn parhau tan 5<sup>ed</sup> Ionawr 2024. Bydd gofyn i'r CBC gwblhau'r ymarfer ymgynghori erbyn y dyddiad hwnnw, ac mae'n gofyn am eglurhad mewn perthynas â chymeradwyaeth arfaethedig oherwydd ni fydd CBC Canolbarth Cymru'n cwrdd tan 18<sup>fed</sup> Ionawr 2024.

Awgrymodd EE y gall swyddogion gwrdd i gyrraedd cytundeb gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd o ran sut i ddelio gyda'r broblem hon.

Awgrymodd y Swyddog Monitro ysgrifennu at Gomisiynydd y Gymraeg i'w hysbysu na fydd cyfarfod nesaf CBC Canolbarth Cymru'n cael ei gynnal tan 18<sup>fed</sup> Ionawr 2024 ac a fyddai modd ymestyn y dyddiad i'r perwyl hwn.

Mae'r Cyngorydd Sir Bryan Davies yn cymeradwyo'r awgrym hwn, ac mae'n ffordd ymarferol o ddelio gyda'r dyddiad terfyn wrth law.

## **GWEITHRED**

**Swyddogion i ddrafftio ymateb a luniwyd ar y cyd i'w hystyried gan Gomisiynydd y Gymraeg i ofyn am ymestyn dyddiad terfyn yr ymgynghoriad, ac y dylid cynnwys hon fel eitem ar agenda Cyfarfod nesaf y CBC ar 18<sup>fed</sup> Ionawr 2024.**

13.	UNRHYW FATER ARALL
-----	--------------------

Dim.

14.	DYDDIADAU CYFARFOD FFURFIOL CBC CANOLBARTH CYMRU YN Y DYFODOL AC IS-BWYLLGORAU'R CBC
-----	--

### **Cyfarfodydd Ffurfiol CBC Canolbarth Cymru**

Dydd Iau, 18fed Ionawr 2024 am 11am tan 12.30pm

Dydd Iau, 9fed Mai 2024 am 2pm tan 3pm

Gorffennaf 2024 – i'w drefnu

Hydref 2024 – i'w drefnu

### **Is-bwyllgorau'r CBC (I'w nodi)**

Cynllunio Datblygu Strategol, Dydd Mawrth 17eg Hydref am 4pm tan 5pm

Llywodraethu ac Archwilio, Dydd Iau, 19eg Hydref am 4pm tan 5pm

Cynllunio Trafnidiaeth Ranbarthol, Dydd Llun, 23ain Hydref am 4pm tan 5pm

Safonau, Dydd Iau 9fed Tachwedd am 2pm tan 3pm

Trosolwg a Chraffu ar y Cyd, Dydd Iau, 16eg Tachwedd am 10am tan 11am

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol





**Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth**

**Mid Wales Corporate Joint Committee**

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG CANOLBARTH CYMRU**

**Dydd Llun, 29 Ionawr 2024**

TEITL:	Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2023
AWDUR:	Duncan Hall – Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael – Ceredigion

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

1.1. I ystyried ac i gymeradwyo y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

**2. Penderfyniad(au) a Geisir**

2.1. I gymeradwyo y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

**3. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

3.1 Mae rheoliad 10(1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Ariannol Cyfrifol Cyd-Bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru lofnodi a dyddio'r datganiad o gyfrifon, ac ardystio ei fod yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi, ac o incwm a gwariant y corff hwnnw am y flwyddyn honno.

3.1. Mae trafodion ariannol Cyd-Bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 wedi eu crynhoi yn y Ffurflen Flynyddol, sydd wedi ei chynnwys yn Atodiad 2.

3.2. Mae Archwilio Cymru wedi archwilio y Ffurflen Flynyddol ac mae eu adroddiad wedi ei gynnwys yn Atodiad 1. Mae'r tystysgrif a'u barn archwiliad yn datgan – "Ein bwriad yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad diamod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 ac nid oes unrhyw faterion o ran y farn yr ydym am dynnu eich sylw ati."

#### **4. Argymhellion**

4.1. Fod y Bwrdd yn cymeradwyo y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

#### **5. Goblygiadau Cyfreithiol**

5.1. Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

#### **6. Goblygiadau Adnoddau Dynol**

6.1. Does dim goblygiadau AD.

#### **7. Goblygiadau Ariannol**

7.1. Ddim yn briodol

#### **8. Atodiadau**

- Atodiad 1: Tystysgrif a barn Archwilio Cymru
- Atodiad 2: Ffurflen flynyddol Cyd-Bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall  
Caerdydd / Cardiff  
CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

[post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru) / [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

[www.archwilo.cymru](http://www.archwilo.cymru) / [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Mr Duncan Hall  
Cyngor Sir Ceredigion  
Canolfan Rheidol  
Rhodfa Padarn  
Llanbadarn Fawr  
Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 3UE

**Cyfeirnod:** DO / JB

**Dyddiad cyhoeddi:** 8 Ionawr 2024

Annwyl Duncan,

## **Ffurflen Flynyddol Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru 2022-23**

Yn unol â gofynion Adran 12 ac Adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, rwy'n rhoi fy adroddiad ar Ffurflen Flynyddol Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Rwyf wedi ymgymryd â'n gwaith yn unol â'r gweithdrefnau penodedig a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn gryno, mae'r gweithdrefnau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried a yw'r datganiad cyfrifon blynyddol:

- wedi eu paratoi ar sail resymol (er enghraifft, mae'r ffigurau'n cytuno i'r cofnodion gwaelodol y cawsant eu paratoi arnynt ac maent yn gyson â'r trafodiadau a gofnodwyd yng nghyfrifon statudol yr awdurdodau lleol cyfansoddol ar gyfer yr un cyfnod adrodd); ac
- yn castio'n gywir.

**Adroddiad archwilio ar y ffurflen flynyddol sy'n ymwneud â Chyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023:**

Yn amodol ar gymeradwyo ffurflen flynyddol 2022-23, byddwn yn gallu ardystio'r ffurflen flynyddol a chyhoeddi ein hysbysiad o gwblhau'r archwiliad a chadarnhau'r canlynol:

"Ar sail fy adolygiad, yn fy marn i, nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw gan roi achos dros bryderu, mewn unrhyw ffordd berthnasol, y wybodaeth a adroddwyd yn y Ffurflen Flynyddol hon:

- nad yw wedi'i baratoi yn unol ag arferion priodol;
- nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddiol perthnasol wedi'u bodloni;
- nad yw'n gyson â threfniadau llywodraethu'r Pwyllgor; a
- nad oes gan y Pwyllgor drefniadau priodol ar waith i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau'

**Materion eraill**

Nid oes gennym unrhyw faterion eraill y mae'n rhaid i ni eu dwyn i'ch sylw.

Yn gywir



**Derwyn Owen**

**ar gyfer ac ar ran Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Ffurflen Flynyddol Cydbwyllgorau Llai yng Nghymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2023

## Datganiadau cyfrifyddu 2022-23 ar gyfer:

Enw'r corff:

Cydbwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru

	Y flwyddyn a ddaeth i ben		Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon
	31 Mawrth 2022 (£)	31 Mawrth 2023 (£)	Dylech dalgrynnu'r holl ffigyrau i'r £ agosaf. Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag gan gofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigwr fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.
<b>Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau</b>			
1. Balansau a ddygwyd ymlaen	0	0	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â llinell 7 y flwyddyn flaenorol.
2. (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll	0	160,000	Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff.
3. (+) Cyfanswm derbyniadau eraill	0	0	Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn y symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a reffeniw.
4. (-) Costau staff	0	0	Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig, e.e. costau terfynu.
5. (-) Llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf	0	0	Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl).
6. (-)Cyfanswm taliadau eraill	0	76,676	Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn costau staff (linell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (linell 5).
7. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	0	83,324	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) – (4+5+6).
<b>Datganiad o falansau</b>			
8. (+) Dyledwyr	0	81,717	<b>Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:</b> Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff.
9. (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau	0	78,283	<b>Pob cyfrif:</b> Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â'r cysoniad banc.
10. (-) Credydwyr	0	76,676	<b>Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:</b> Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthycy) ar ddiwedd y flwyddyn.
11. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	0	83,324	<b>Dylai cyfanswm y balansau fod yn hafal i linell 7 uchod:</b> Nodwch gyfanswm (8+9-10).
12. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor	0	0	Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth.
13. Cyfanswm benthyciadau	0	0	Balans cyfalaf dyledus pob benthyciad gan drydydd partïon ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB).

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r Pwyllgor, ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, ein bod wedi gwneud y canlynol:

	Cytunwyd?		Mae 'DO' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:	Cyf y Canllaw i Ymarferwyr
	Do	Naddo*		
<p>1. Rhoi trefniadau ar waith ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>rheolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a</li> <li>pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu.</li> </ul>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel a ragnodir gan y gyfraith.	6, 12
<p>2. Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredigaeth, ac adolygu ei heffeithiolrwydd.</p>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth.	6, 7
<p>3. Cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd i ni'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Pwyllgor i gynnal ei fusnes neu ar ei sefyllfa ariannol.</p>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny.	6
<p>4. Darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.</p>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â buddiant archwilio cyfrifon y corff yn unol â'r hyn a nodir yn yr hysbysiad o'r archwiliad.	6, 23
<p>5. Cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Pwyllgor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen.</p>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r corff ac ymdrin â hwy'n briodol.	6, 9
<p>6. Cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol.</p>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff.	6, 8
<p>7. Ystyried a oes unrhyw ymgyfreithiad, rhwymedigaethau neu ymrwymadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, yn cael effaith ariannol ar y Pwyllgor a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu.</p>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol.	6
<p>8. Cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol.</p>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol.	6, 8, 23

\* Ar ddalen ar wahân, rhwch esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb 'naddo' a roddwyd; a disgrifwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

## Nodiadau datgelu ychwanegol\*

Darperir yr wybodaeth ganlynol i gynorthwyo'r darllenydd i ddeall y datganiadau cyfrifyddu a/neu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

1.

2.

3.

\* Dylid cynnwys yma unrhyw ddatgeliadau ychwanegol sy'n angenrheidiol yn nhyb y Cyngor i gynorthwyo'r darllenydd i ddeall y datganiadau cyfrifyddu a/neu'r datganiad llywodraethu blynyddol.

## Cymeradwyaeth ac ardystiad y Pwyllgor

Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu a'r datganiad llywodraethu blynyddol yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

<b>Ardystiad gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol</b> Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Pwyllgor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.	<b>Cymeradwyaeth gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor</b> Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod:
	<b>Cyfeirnod cofnod:</b>
<b>Llofnod y Swyddog Cyllid Cyfrifol:</b>	<b>Llofnod Cadeirydd y cyfarfod:</b>
<b>Enw:</b>	<b>Enw:</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>Dyddiad:</b>

# Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Adroddaf mewn perthynas a'm harchwiliad o'r cyfrifon o dan adran 13 o'r Ddeddf, a yw unrhyw faterion sy'n dod i'm sylw yn peri pryder nad yw deddfwriaeth a gofynion rheoliadol perthnasol wedi'u bodloni. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r Datganiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 ar gyfer:

## Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru

### Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol

#### Barn archwilio - Diamod

Ar sail fy adolygiad, yn fy marn i, nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw gan beri pryder bod y wybodaeth a adroddir yn y Datganiad Blynyddol hwn mewn unrhyw ffordd berthnasol:

- nad yw wedi'i baratoi yn unol ag arferion priodol;
- nad yw deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoliadol wedi'u bodloni;
- nad ydynt yn gyson a threfniadau llywodraethu'r cydpywyllgor;
- nid oes gan y cydbwyllgor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

#### Materion eraill sy'n codi ac argymhellion

Nid oes unrhyw faterion pellach nac argymhellion yr wyf yn dymuno'u dwyn i sylw'r Cydbwyllgor.

Enw, Cyfarwyddwr, Archwilio Cymru  
O blaid ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

Dyddiad:



## Adroddiad archwilio mewnol Blynyddol ar gyfer:

Enw'r corff:

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG CANOLBARTH CYMRU

Mae archwiliad mewnol y Pwyllgor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2023.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Pwyllgor a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ôl ystyried a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Pwyllgor.

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys **	
1. Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mae cyfrifon ariannol wedi'u dadansoddi ac ni chodwyd dim pryderon.
2. Bodlonwyd rheoliadau ariannol, ategwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Adolygiad o sampl o anfonebau a chofnodion, canfuwyd bod yr holl daliadau yn gywir.
3. Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Soniwyd am risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion yn y Cyd-bwyllgor Corfforedig a chawsant eu trafod, ond ni chrëwyd dim cofrestr risgiau swyddogol.
4. Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Soniwyd am y cyllidebau a'r eitemau gwariant yr aethpwyd iddynt wrth y Cyd-bwyllgor Corfforedig.
5. Cafodd yr incwm disgwylidig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n brydlon, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Ni chafwyd dim incwm ychwanegol
6. Ategwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebaw, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Nid oes arian mân yn cael ei gadw
7. Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Nid oes neb yn cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.
8. Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Nid oes dim asedau yn cael eu cadw

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
9. Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mae'r trafodiadau ariannol yn cael eu cynnal yng nghyfrif y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae cysoniadau banc yn cael eu cynnal.
10. Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u hategu gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig drefniadau rheoli digonol ar gyfer cyfrifyddu. Cefnogir datganiadau ariannol gan drywydd archwilio. Cofnodwyd taliadau dyledwyr a chredydwyr yn gywir.

**Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar dudalennau ar wahân os oes angen):**

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
11. Nodwch y maes risg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
12. Nodwch y maes risg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
13. Nodwch y maes risg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun

\* Os atebwyd 'naddo', nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

\*\* Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

[Mae fy nghanfyddiadau manwl a'm hargymhellion yr wyf yn eu dwyn i sylw'r Pwyllgor wedi'u cynnwys yn fy adroddiad manwl i'r Pwyllgor dyddiedig \_\_\_\_\_.] \* Dileer os nad oes adroddiad wedi'i baratoi.

### Cadarnhau archwiliad mewnol

Yr wyf fi/Yr ydym ni yn cadarnhau nad wyf i/ydym ni, fel archwilydd mewnol y Pwyllgor, wedi ymgymryd â swyddogaeth reoli na gweinyddol o fewn y corff (gan gynnwys paratoi'r cyfrifon) nac fel aelod o'r corff yn ystod y blynyddoedd ariannol 2021-22 a 2022-23. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

**Enw'r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: Kate Ryde, Kevin Price (SWAP)**



**Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol:**

**Dyddiad: 22/08/2023**



Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

## CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y CANOLBARTH

Dydd Llun 29 Ionawr 2024

## ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL

Teitl yr Adroddiad: Cynllun Corfforedig Drafft 2023-2028 – Adborth i'r Ymgynghoriad.

<b>Diben yr Adroddiad</b>	Darparu adborth i ganlyniad yr ymgynghoriad sy'n berthnasol i Gynllun Corfforedig Drafft CBCC a chadarnhau, yn amodol ar gymeradwyo'r adolygiadau, y ddogfen derfynol sydd i'w mabwysiadu a'i chyhoeddi.
<b>Penderfyniad a Geisiwyd:</b> Cymeradwyo Cynllun Corfforaethol ac Asesiad Effaith terfynol ar gyfer eu cyhoeddi.	
<b>Awdur yr Adroddiad</b>	Eifion Evans – Prif Swyddog Gweithredol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth
<b>Swyddog Cyllid</b>	Duncan Hall – Swyddog Adran 151
<b>Swyddog Cyfreithiol</b>	Clive Pinney – Swyddog Monitro

## Cefndir

Ymhellach i'r adroddiad a gyflwynwyd i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2023, cafodd ymarferiad ymgynghori sylweddol, a oedd yn berthnasol i'r Cynllun Corfforaethol Drafft 2023-2028, ei weithredu. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys ymarferiad ymgysylltiad cyhoeddus digidol ochr yn ochr â gwahoddiadau i bobl penodol a oedd yn cael eu hymgyngori, er mwyn annog ymateb eang. Mae rhestr o'r bobl penodol a oedd yn cael eu hymgyngori wedi ei hatodi (Atodiad 1). Gwnaeth yr ymgynghoriad bara chwe wythnos.

Mae'r ymatebion manwl a dderbyniwyd wedi eu hatodi at yr adroddiad hwn (Atodiad 2). Mae'r prif themâu a ddynodir yn cynnwys cydnabyddiaeth fod angen i'r rhanbarth ddatblygu atebion pwrpasol i'r heriau a wynebir yn y rhan hon o Gymru. Er nad yw Cynllun Corfforaethol CBCC yn ceisio mynd i'r afael â'r holl bryderon a godwyd, mae rhan fwyaf o'r materion yn derbyn sylw mewn cynlluniau eraill fel Bargen Twf Canolbarth Cymru, a Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru. Ar ôl i'r Aelodau ystyried yr adborth a chymeradwyo unrhyw newidiadau, y bwriad yw mabwysiadu'r ddogfen yn ffurfiol fel Cynllun Corfforaethol CBCC. Y bwriad gwreiddiol oedd bod y Cynllun yn cynnwys y cyfnod 2023-2028, fodd bynnag, yn sgil problemau amseru, nid oedd yn bosibl cwblhau'r ymarfer oddi fewn i un flwyddyn galendr. Felly, argymhellir y caiff y ddogfen ei therfynu a'i mabwysiadu yn 2024 a chael teitl newydd sef Cynllun Corfforaethol CBCC 2024-2029.

Y bwriad yw ailymweld â'r Cynllun yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn adlewyrchu newidiadau i amgylchiadau sy'n ymddangos, gan gynnwys deddfwriaethu a chyfarwyddyd.

Yn unol â'r cyfarwyddyd, mae'r Cynllun wedi bod yn destun Asesiad Effaith gan ddefnyddio proses a thempled Cyngor Sir Powys. Caiff hwn ei asesu a gofynnir i aelodau gymeradwyo'r Asesiad Effaith ar ddiwedd yr adroddiad hwn (Atodiad 4).

### **Adborth i'r Ymgynghoriad**

Prin fu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ond efallai fod hynny'n adlewyrchiad o natur strategol y ddogfen. Bwriedir i'r Cynllun osod cyfeiriad strategol eang, ac er y bydd cynlluniau manwl mwy penodol yn ymddangos yn y dyfodol, caiff ei gydnabod mai ychydig o fanylion ymarferol sydd yno i roi sylwadau arnynt yn ystod y cam hwn o ddatblygiad CBCC.

Ni dderbyniwyd unrhyw adborth oddi wrth Lywodraeth Cymru na Swyddfa Archwilio Cymru.

Mewn termau cyffredinol, mae'r adborth a dderbyniwyd wedi bod yn ddefnyddiol gan fod sylwadau'n dangos dealltwriaeth o'r amrywiol heriau sy'n wynebu'r rhanbarth. Cafodd pob ymateb ystyriaeth ofalus gyda sylwadau penodol yn cael eu darparu am y cynnwys, a gellir gweld manylion y rheini yn Atodiad 2.

Fel y bydd aelodau yn ei nodi, mae'r ymatebwyr wedi dewis aros yn ddiennw ac felly yr adroddiad hwn yw'r modd y caiff cyfranwyr weld cydnabyddiaeth y Bwrdd.

### **Adborth Cyffredinol**

Diolchir i'r ymatebwyr am yr amser a'r ymdrech y gwnaethant eu rhoi mewn perthynas â'r ymgynghoriad. Caiff yr ymatebion eu rhannu hefyd, ble y bo'n briodol, ag Aelodau a Swyddogion y mae eu gwaith wedi ei gynnwys gan y pynciau hyn fel y Fargen Twf, Partneriaeth Sgiliau, ac ati. Mae Swyddogion Arweiniol hefyd wedi manteisio ar y cyfle i roi sylwadau pellach i sicrhau bod y derminoleg a'r cyfeiriadau technegol mor gyffredol ag sy'n bosibl.

Mae hyn wedi cynnwys cyflwyno rhai llinellau amser ac atebolrwydd oddi fewn i'r Cynllun Gweithredu.

### **Y Ffordd Ymlaen**

Caiff Cynllun Corfforaethol ei atodi i Aelodau eu hystyried a'u cymeradwyo ochr yn ochr â'r Asesiad Effaith (Atodiadau 3 a 4). Yna, bydd y Cynllun yn cael ei gyhoeddi ar wefannau partner a'u rhannu ag ymgynghorai gan gynnwys cyrff statudol.

### **Effeithiau Ariannol**

Bydd mabwysiadu a chyhoeddi'r Cynllun yn arwain at gost pellach minimal. Ni fwriedir cynhyrchu copi caled i'r Cynllun i gadw'r gost i'r isafswm pan gaiff y ddogfen ei hadolygu a'i diweddarau.

### **Asesiad Effaith**

Gweithredwyd Asesiad Effaith drafft gan ddefnyddio proses a thempled Powys. Cafodd Asesiad Effaith Powys ei ddatblygu gan sicrhau cydymffurfiaeth lwyr â pholisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru.

## **Effeithiau ar y Gweithlu**

Ymgymerir â'r gwaith sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Cynllun Corfforaethol yn y dyfodol oddi fewn i gapasiti'r adnoddau sydd eisoes mewn lle. Cafodd yr is-bwyllgorau sy'n gyfrifol am wneud cynnydd i'r cynlluniau gweithredu a ddynodwyd yn yr adroddiad, eu darparu â rheolaeth a chymorth gweinyddol priodol.

## **Effeithiau ar Reoli Risg**

Er nad oes yna ofyniad cyfreithiol i gynhyrchu Cynllun Corfforaethol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, eto y mae'n ddisgwyliad gan Lywodraeth Cymru, er mwyn arddangos ymrwymiad a chynnydd yn erbyn gofyniad cyfreithiol i sefydlu Cyd-Bwyllgorau Corfforedig rhanbarthol. Gwnaeth adroddiad diweddar Comisiwn Archwilio Cymru ddynodi ymrwymiad oriog ledled Cymru tuag at ddatblygu cynlluniau gwaith Cyd-Bwyllgorau Corfforaethol. Wrth gynhyrchu'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer Canolbarth Cymru, bydd y rhanbarth yn sicrhau ei fod yn gallu arddangos y cynnydd a'r ymrwymiad priodol.

## **Ymgynghoriad**

Mae'r adroddiad hwn yn dod â'r broses ymgynghori i ben mewn perthynas â Chynllun Corfforaethol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

## **Rhesymau dros y penderfyniad arfaethedig**

Galluogi'r Cynllun Corfforaethol drafft i gael ei fabwysiadu.

## **Gweithredu'r Penderfyniad**

Caiff y penderfyniad hwn ei weithredu ar unwaith.

## **Atodiadau**

1. Rhestr o'r sawl a gafodd eu hymgyngori'n swyddogol (yr ymgynghorai)
2. Ymatebion i'r ymgynghoriad
3. Cynllun Corfforedig Diwygiedig CBCC 2024-2029
4. Asesiad Effaith y Cynllun Corfforaethol

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol



## **Atodiad 2**

### **Ymatebion i'r ymgynghoriad**

#### **Rhif 1**

C1. Cyflwynwch eich sylwadau erbyn dydd Mawrth 12 Rhagfyr 2023: trên greffi di-bwynt arall heb swyddi yng Nghymru, dyna'r peth olaf rydyn ni ei angen.

#### **Ymateb**

Ni ystyrir fod ymateb pellach yn angenrheidiol nac yn briodol.

#### **Rhif 2**

Rhaid i'r cynllun ddechrau gyda'r pethau sylfaenol. 1. Ynni adnewyddadwy diffosil rhad i holl breswylwyr Canolbarth Cymru. 2. Cyswllt digidol / rhyngwyd cyflym iawn yng Nghanolbarth Cymru. Byddai cwblhau'r ddau nod hyn yn hunangyflawniad, gan gynhyrchu'r cyfoeth gofynnol i gyflawni'r holl nodau eraill gofynnol ar gyfer y cynllun corfforaethol. Ond wrth gwrs nid yw hyn mor syml ag y mae'n ymddangos.

#### **Ymateb**

Mae'r sylwadau a wnaed yn yr ymatebiad hwn yn cael eu derbyn fel rhai allweddol i ddyfodol **llesiant y rhanbarth**. Ceir amrywiaeth o fentrau eisoes oddi fewn i gynlluniau sefydliadau CCC cyfansoddol sy'n ceisio mynd i'r afael â'r pryderon hyn. Yn ychwanegol, mae partneriaethau rhanbarthol fel Partneriaeth Canolbarth Cymru a Bargen Twf Canolbarth Cymru hefyd wedi dynodi cyfleodd i ymateb i'r heriau hyn. Yn anochel, bydd gan y CCC gyfle i fonitro cynnydd y mentrau hyn yn lleol ac yn fwy strategol.

#### **Rhif 3**

Yn gyntaf, nid yw'r cynllun drafft hwn yn ysbrydoli hyder pan fo'n cynnwys gymaint o gamgymeriadau 'typos' a gwallau gramadegol. Mae angen i'r awdur ddyngu sut i ddefnyddio'r collnod yn gywir a defnyddio prawf ddarllenwr. Ymhlith y camgymeriadau mae: tudalen 9, Adran 2.3, mae'r paragraff olaf yn dweud bod cyflogaeth wedi gostwng gan tua 54% mewn 5 mlynedd. Ai 5.4% ddylai hwn fod? Tudalen 14, paragraff

## **Appendix 2**

### **Responses to consultation**

#### **Number 1**

Q1. Submit your comments by Tuesday 12 December 2023: another pointless non jobs gravy train in Wales, that's the last thing we need.

#### **Response**

No further response is considered necessary or appropriate.

#### **Number 2**

The plan must start with the basics. 1. Cheap fossil free renewable energy for all residents of Mid Wales. 2. High speed digital / internet connection for all residents in Mid Wales. The completion of these two objectives would be self-fulfilling, generating the wealth required to archive all other required objectives for the corporate plan. The devil is of course in the detail.

#### **Response**

The comments made in this response are accepted as being key to the future of the **regions wellbeing**. There are already a range of initiatives contained within the plans of the constituent CJC organisations that seek to address these concerns. In addition, regional partnerships such as the Mid Wales Partnership and the Mid Wales Growth Deal have also identified opportunities to respond to these challenges. The CJC will inevitably have the opportunity to monitor progress of these initiatives both locally and more strategically.

#### **Number 3**

Firstly, this draft plan does not inspire confidence when it contains so many typo and grammatical errors. The author needs to learn how to use an apostrophe and engage a proofreader. Errors include: Page 9, Section 2.3, last para says employment has decreased by around 54% in 5 years. Should this be 5.4%? Page 14, Funding para, last sentence should read ....well placed...., not ....well place... Page 14, Delivery Landscape para should read ...have

ariannu, dylai'r frawddeg olaf ddarllen fel hyn.....well placed....., nid....well place... Tudalen 14, Dylai paragraff 'Delivery Landscape' ddarllen fel hyn ...have ceased to operate..., nid ...have ceased to operate... Tudalen 22, dylai'r paragraff olaf ddarllen fel hyn...can be evidenced in a..., nid ...can be evidence in a... Tudalen 24, adran 5.1, dylai'r paragraff 1af ddarllen fel hyn...forefront of the region's collaborative..., nid forefront of the regions collaborative... Tudalen 30, dylai'r paragraff olaf ddarllen fel hyn...of the region's priorities..., nid ...of the regions priorities... Tudalen 39, dylai'r paragraff olaf ddarllen fel hyn ...fulfil all its requirements as..., nid: fulfil all its requirement's as... Yn ail, yn ôl yr hyn a nodwyd, mae llawer o'r gwaith y gallai'r Pwyllgor hwn fod wedi ymgymryd ag ef eisoes wedi cael ei gyflawni gan gyrff eraill, gan gynnwys Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, Cynllun Trafnidiaeth Ar y Cyd Canolbarth Cymru, ac Y Fargen Twf Canolbarth Cymru. A yw'n wirioneddol angenrheidiol ychwanegu haen arall o fiwrocratiaeth rhwng Cynllun Cymru'r Dyfodol a Chynlluniau Datblygu Lleol? Ai dyma'r defnydd gorau o gyllideb gychwynnol o £170,000, a fydd, heb amheuaeth yn cynyddu dros amser, pan fo gymaint o waith y Pwyllgor yn cael ei gynnwys gan sefydliadau eraill? Awgrymaf y gallai perthynas waith agosach rhwng Ceredigion a Phowys gael ei gyflawni'n well wrth uno'r ddau Gyngor. Nid yw dau Gyngor yn gwasanaethu cyd-boblogaeth o ychydig yn fwy na 200,000 o bobl gyda dau set o isadeiledd a dau set o swyddogaethau ôl-swyddfa, yn cynnig gwerth am arian i dalwyr trethi'r Cyngor.

**Ymateb**

Caiff yr ymateb ei nodi, ac mae'r ddogfen derfynol wedi cael ei diwygio yn ôl y sylwadau a dderbyniwyd a'i ail-wirio am wallau. Cydnabyddir a gwerthfawrogir yr amser y treuliodd yr

ceased to operate..., not ...have ceased to operate... Page 22, last para should read ...can be evidenced in a..., not ...can be evidence in a... Page 24, section 5.1, first para should read ...forefront of the region's collaborative..., not forefront of the regions collaborative... Page 30, last para should read ...of the region's priorities..., not ...of the regions priorities... Page 39, last para should read ...fulfil all its requirements as..., not fulfil all its requirement's as... Secondly, by its own admission, much of the work that may be undertaken by this Committee is already being carried out by other bodies, including The Growing Mid Wales Partnership, The Joint Mid Wales Transport Plan, and The Mid Wales Growth Deal. Is it really necessary to add another layer of bureaucracy between the Future Wales Plan and Local Development Plans? Is this the best use of a budget of initially £170,000, which will no doubt rise over time, when so much of the Committee's work is covered by other organisations? I would suggest that a closer strategic working relationship between Ceredigion and Powys could be better achieved by merging the two Councils. Two Councils serving a joint population of little over 200,000 people with two sets of infrastructure and two sets of back-office functions does not offer Council Taxpayers value for money.

**Response**

The response is noted, and the final document has been amended as per the comments received and has also been re-checked for other errors. The time the respondent has spent on reading the document and identifying

ymatebydd wrth ddarllen y ddogfen a nodi'r gwallau hyn. Mae'r sylw ynghylch yr angen am gorff statudol ychwanegol i ganolbwyntio ar bethau o'r fath hefyd wedi ei nodi. Mae'r gofyniad i ddatblygu CCCau yn statudol a thu hwnt i bwerau'r cyrff cyfansoddol, fel y mae strwythur llywodraeth leol yng Nghymru.

#### **Rhif 4**

Mae'n grêt gweld Cynghorau yng Nghanolbarth Cymru yn ceisio gweithio ynghyd. Er mwyn cael system drafnidiaeth gyhoeddus gydnerth, mae angen i wasanaethau rheilffordd cyfredol fod yn gweithio ac yn ddibynadwy, mae llawer o bobl wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio llinell reilffordd Calon Cymru. Mae'n hanfodol cael hyfforddiant a chymorth lleol i bobl ifanc i greu dyfodol hir dymor i'r ardal. Mae llawer o golegau lleol wedi cau neu symud allan o gyrraedd y sawl heb drafnidiaeth eu hunain (e.e. o Landrindod i Gastell Nedd) dros y 10 mlynedd ddiwethaf; ar gyfer hyfforddiant mewn pynciau ymarferol yn ogystal â rhai academaidd fel garddwriaeth, peirianeg, trin gwallt. Rwy'n teimlo fod Powys yn dioddef yn sgil diffyg buddsoddiad oherwydd natur wasgaredig y boblogaeth, ond wrth golli trafnidiaeth, a chyfleoedd hyfforddiant/addysg mae'r ardal yn dyfod yn llai deniadol i'r sawl sy'n byw yma a'r sawl sy'n ystyried symud yma. O safbwynt amgylcheddol, rwy'n deall ei fod yn anodd cael cydbwysedd cywir rhwng darparu gwaith mewn ardal wledig a diogelu ecoleg. Gall arferion ffermio a choedwigaeth wrthdaro gyda diogelu cyrsiau dŵr ac adeiladwaith y pridd. Mae angen cael newid i ffyrdd wledig o fyw ond mae angen triniaeth ofalus a chynnig dewis amgen sy'n cynnig gwobrau ariannol tebyg. Ceir angen cryf am ffynonellau tanwydd amgen yn genedlaethol, ond nid wyf yn credu taw llenwi cefn gwlad brydferth â pheilonau yw'r ffordd i fynd o'i chwmpas hi. Dylai Cymru fod yn falch o'i phrydferthwch, a'i

these issues is acknowledged and appreciated. The comment relating to the need for an additional statutory body to focus on such things is also noted. The requirement to develop CJC's is statutory and beyond the powers of the constituent bodies, as is the structure of local government in Wales.

#### **Number 4**

It's great to see Councils in Mid Wales trying to work together. In order to have a robust public transport system the current rail services need to be working and reliable, many people have given up trying to use the Heart of Wales line. Locally available training and support of young people are vital to create a long-term future for the area. Many local colleges have closed or moved out of reach for those lacking personal transport (e.g. from Llandrindod Wells to Neath) in the past 10 years; these training in practical as well as academic subjects such as horticulture, engineering, hairdressing. I feel that the Powys suffers from lack of investment because of the spread nature of the population, but by losing transport, and training / education opportunities the area becomes less appealing to those living here and those who are looking to move here. From an environmental perspective I understand that it is difficult getting the balance right between providing work in a rural area and protecting ecology; farming practices and forestry can conflict with protecting water courses and soil structure. Changes to rural ways of life need to happen but be handled delicately and offering alternatives with similar financial rewards. There is a strong need to alternative fuel sources nationwide, but I do not believe that filling pristine countryside with pylons is the right way to go. Wales should be proud of and promote its beauty for wellbeing and tourism. As a recent purchaser of solar panels, I can see that covering the landscape in Windfarms is

hyrwyddo ar gyfer llesiant a thwristiaeth. Fel un sydd wedi prynu paneli solar yn ddiweddar, gallaf weld bod gorchuddio'r tirlun â ffermydd gwynt yn ddianghenraid, gellir cyflawni economi tanwydd gwyrdd cymysg a dylid ceisio hynny ar gyfer Canolbarth Cymru. Beth am greu diwydiant newydd i laswelltir Cymru – biodanwydd? Gallai hynny fod yn ffordd o aildefnyddio systemau nwy presennol a chreu neu amnewid cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig. Edrychaf ymlaen at weld buddsoddi yng Nghanolbarth Cymru.

**Ymateb**

Mae'r ymatebydd wedi bod yn glir wrth ddynodi nifer o'r heriau y mae'r rhanbarth yn eu hwynebu, yn enwedig y rhai sy'n berthnasol i drafnidiaeth, hyfforddiant, sgiliau ac addysg yn ogystal â diogelwch ynni. Mewn ffora blaenorol, dynododd aelodau eu pryderon eu hunain ynghylch y materion hyn, a chaiff ei ystyried y byddant yn parhau i ffurfio rhan allweddol o'r cynlluniau yn y dyfodol. Bydd CCC yn canolbwyntio'n benodol ar faterion sy'n berthnasol i drafnidiaeth yn y Cynllun Corfforaethol. Wrth gwrs, bydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn canolbwyntio ar faterion sy'n berthnasol i hyfforddiant, sgiliau ac addysg. Bydd Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru a fabwysiadwyd yn ddiweddar, yn ystyried materion sy'n berthnasol i ddiogelwch ynni yn y tymor canolig a'r hir dymor.

**Rhif 5**

Heb ei ateb.

**Rhif 6**

Nid yw'r cynllun yn llwytho ac nid yw'n hygyrch. Ai ymgynghoriad statudol yw hon? Pam fod yn rhaid i chi lawrlwytho dogfen cyn gwneud sylwadau? Pan nad yw'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau eraill?

**Ymateb**

Mae'r ddogfen ar gael yn unol â phob ymgynghoriad arall yr ymgymerir ag ef yn y modd hwn ac mae wedi bod yn

unnecessary, a mixed green-fuel economy is achievable and should be sought for Mid Wales. What about creating a new industry for Welsh grasslands - biofuel? This could be a way to reuse existing gas systems and create or replace employment for in rural areas. I look forward to seeing investment in Mid Wales.

**Response**

The respondent has clearly identified many of the challenges that the region faces, particularly relating to transport, training, skills and education as well as energy security. Members have indicated in previous fora their own concerns with these matters, and it is considered that they will continue to form a key part of plans in the future. Issues relating to transport will be a specific focus for the CJC as indicated in the Corporate Plan. The Mid Wales regional Skills Partnership will of course focus on matters relating to training, skills, and education. The recently adopted Mid Wales Energy Strategy will consider matters relating to energy security both in the medium and long-term.

**Number 5**

Not answered.

**Number 6**

The plan is not loading and it is not accessible. Is this a statutory consultation? Why do you have to download a document before making comments. Why is the document not available in other formats.

**Response**

The document has been made available in accordance with all other consultations undertaken in this manner and has been accessible. As the respondent has remained anonymous it

hygyrch. Gan fod yr ymatebydd wedi aros yn ddienw, ni fu'n bosibl gwneud ymdrechion i gysylltu â'r person i geisio dynodi'r rheswm dros y diffyg hygyrchedd. Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebiadau wedi derbyn y sylw hwn a bydd yn monitro unrhyw broblemau hygyrchedd yn y dyfodol. Yn glir, mae'n siomedig nad oedd yr ymatebydd wedi gallu cyfrannu at yr ymgynghoriad.

#### **Rhif 7**

Yn gyffredinol, wrth gymeradwyo, fodd bynnag, nid yw pob maint yn ffitio pawb. Nid yw'r hyn a allai fod yn briodol i Dde Cymru yn briodol i Ganolbarth Cymru. Mae newid hinsawdd yn llywio tloedi a'r ymateb i hynny. Mae gwrthio am opsiynau cynaliadwy yn costio llawer o arian i'r defnyddiwr yn y diwedd. Mae'n cyfyngu ar ei ryddid i deithio, er enghraifft os na all fforddio cerbyd carbon isel, ond y gall fforddio cerbyd carbon llwyr gan gael ei gosbi am hynny. Mae angen dyfarnu grantiau i gymunedau a rhaid i'w hopsiynau teithio gael eu cefnogi'n llwyr a'u cymhwysu'n gyson. Mae angen mabwysiadu ymagwedd fwy cynaliadwy a'r eironi yw nad yw'r brys yn gynaliadwy achos fe fydd yn creu tloedi, unigrwydd a thorri cymunedau i ffwrdd. Mae stori'r ysgyfarnog a'r crwbau yn gyfatebiaeth dda fan hyn. Gwnewch e, ond gwenwch e'n llwyddiannus. Defnyddiwch ddata o wledydd eraill tebyg (anghysbell, mynyddig ac ati). Os nad yw'r data hwn ar gael yna cynlluniau peilot. Rhaid i'r boblogaeth beidio â dioddef yn sgil cynllunio annigonol.

#### **Ymateb**

Mae'r CCC yn datblygu ac yn teilwra ei ymateb i heriau ar sail ranbarthol gan adlewyrchu anghenion Canolbarth Cymru, a ddylai fynd peth o'r ffordd i dawelu meddwl yr ymatebydd. Caiff ei ystyried fod cynlluniau'r rhanbarth yn cael eu datblygu mewn modd amserol, wrth ystyried yr atebion hir dymor sy'n debygol o fod yn effeithiol a phriodol i breswylwyr o'r rhanbarth.

has not been possible to make efforts to contact the person to try and identify the reason for inaccessibility. The Communications Service is in receipt of this comment and will monitor any future accessibility problems. It is clearly disappointing that the respondent has not been able to contribute to the consultation exercise.

#### **Number 7**

Overall, in approval however, one size does not fit all. What may be appropriate for south Wales will not be for mid Wales. Poverty is being driven by climate change and the reaction to this. The push to sustainable options costs the end user lots of money. It limits their freedoms to travel for example if they cannot afford a low carbon vehicle but can afford a fully carbon use vehicle and are penalised for this. Grants need to be awarded for communities and their travel options must be fully supported and consistently applied. A more sustainable approach needs to be adopted the irony is that the rush is not sustainable as it will create poverty, loneliness and cut communities off. The hare and the tortoise story are a good analogy here... Do it but do it successfully. Use data from other countries similar countries (remote, hilly, etc). If this data is not available then pilot schemes. The population must not suffer due to inept planning.

#### **Response**

The CJC is developing and tailoring its response to challenges on a regional basis reflecting the needs of Mid Wales, which should go some way to reassure the respondent. It is considered that the regions plans are being developed in a timely fashion, considering long term solutions that are likely to be effective and appropriate for the residents of the region.

--	--

# Asesiad Effaith

## Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth - Cynllun Corfforaethol



DRAFT

15/12/2023

Cyfeirnod: 5852-5749-3140-0861

Proses o asesu sut y gallai ein cynigion a'n penderfyniadau effeithio ar wahanol fathau o bobl a chymunedau a datblygu cynigion yn unol â deddfwriaeth berthnasol yw Asesiadau Effaith.

Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol, ac mae'n sicrhau bod y Cyngor yn ystyried deddfwriaeth allweddol, gan gynnwys Cydraddoldebau, y Gymraeg, Cenedlaethau'r Dyfodol, Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol a Risg wrth ddatblygu cynigion.

# 1. Gwybodaeth am y Cynnig

Enw'r awdur	Paul Griffiths
Pennaeth y gwasanaeth	,
Deiliad portffolio	
Teitl y cynnig	Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth – Cynllun Corfforaethol

Disgrifiad o'r cynnig	<p>Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn ar ran Cyngor Sir Powys, Cyngor Sir Ceredigion a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac yn ymwneud â llunio Cynllun Corfforaethol ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth. Bydd yr Asesiad Effaith yn sicrhau bod y cynllun yn cydymffurfio â'r gwahanol ofynion deddfwriaethol a restrir yn y canllawiau.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi deddfu ar gyfer creu Cyd-bwyllgorau Corfforedig ledled Cymru. Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth yn cynnwys Cyngorau Sir Powys a Cheredigion a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (PCBB). O ran PCBB, bydd cyfranogiad wedi'i gyfyngu i faterion yn ymwneud â Chynllunio Strategol.</p> <p>Prin yw'r canllawiau ynghylch yr hyn y mae'n rhaid i'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig ei gynnwys, ond gwnaed y dybiaeth y bydd yn dilyn yr egwyddorion generig cymedrig a sefydlwyd ar gyfer llunio Cynlluniau Corfforaethol sector cyhoeddus.</p> <p>Gwnaed pob ymdrech i ddilyn y canllawiau sydd ar gael ar gyfer cwblhau'r Asesiad Effaith hwn, ond gan fod y Cyd-bwyllgor Corfforedig dal yn ei febyd nid yw'r manylion sydd eu hangen i hysbysu llawer o'r cwestiynau a godir wedi'u cynhyrchu eto. Cydnabyddir felly y bydd angen diweddarau'r Asesiad Effaith hwn yn rheolaidd wrth i fwy o fanylion o ran cynllunio a gweithgarwch ddod ar gael.</p> <p>Ceir disgwyliad gan Lywodraeth Cymru i Gyd-bwyllgorau Corfforedig sicrhau bod unrhyw gynlluniau yn cydymffurfio â deddfwriaeth, yn enwedig fel y mae'n ymwneud â chydaddoldebau. Mae pob aelod o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig eisoes wedi gwneud ymrwymiad yn ei Gynllun Corfforedig ei hun.</p>
-----------------------	---

## 2. Arbedion a gofynion Ymgynghori

### Proffil yr arbedion a ddarperir



## Gofynion ymgynghori

A oes angen ymgynghoriad?	Oes
Dyddiad terfyn ymgynghori â'r undebau	31/08/2023
Dyddiad terfyn ymgynghori â'r staff	31/08/2023
Dyddiad terfyn ymgynghori â'r cyhoedd	31/08/2023

### Dull ymgynghori

Bydd y broses ymgynghori yn cael ei chynnal dros gyfnod o 6 wythnos. Bydd hyn yn cynnwys trigolion, busnesau, Llywodraeth Cymru, staff Cyngor, Aelodau Cyngor a chyrff cyhoeddus perthnasol eraill yn siroedd Powys a Cheredigion, a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ogystal ag Awdurdodau Lleol eraill ledled Cymru. Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar-lein ond bydd ymwybyddiaeth o'r broses, gan gynnwys sut i wneud sylwadau yn ystod y broses ymgynghori, yn cael ei hybu yn eang.

## 3. Effaith ar feysydd gwasanaeth eraill, ardaloedd daearyddol a diogelu data

### 3a. Effaith ar feysydd gwasanaeth eraill

- Comisiynu a Phartneriaethau (Gwasanaethau Cymdeithasol)
- Addysg
- Gwasanaethau Cymunedol
- Cyfreithiol a Monitro
- Gwasanaethau Trawsnewid a Democrataidd
- Priffyrdd, Trafnidiaeth ac Ailgylchu
- Gwasanaethau Economi a Digidol
- Gwasanaethau Tai
- Cynllunio Eiddo a Diogelu'r Cyhoedd
- Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad
- Cyllid (Adran 151)
- Gwasanaethau Trawsnewid a Democrataidd
- Ysgolion (Cynradd, Uwchradd ac Arbennig) arall

### 3b. Effaith ar leoliadau daearyddol

### 3c. Asesiad effaith diogelu data

<b>A fydd y cynnig yn cynnwys prosesu manylion personol unigolion?</b>	Na fydd
<b>Ai Cyngor Sir Powys yw'r rheolydd data?</b>	Nage
<b>Rhagor o wybodaeth</b>	Ni fydd Cynllun Corfforaethol y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn defnyddio unrhyw ddata personol wrth ei gynhyrchu. Mae'n ddogfen lefel uchel y bwriedir iddi bennu cyfeiriad cyffredinol ar gyfer nifer o gyd-wasanaethau ar draws Rhanbarth y Canolbarth a thrwy wneud hynny ystyrir ei bod yn isel ei risg o ran unrhyw dor diogelwch data posibl. Bydd y cynllun yn cynnwys gwybodaeth ystadegol sydd eisoes yn gyhoeddus ac na ellir ei phriodoli i unrhyw sefydliad neu unigolyn penodol.

## 4. Effaith ar Weledigaeth 2025

### 4a. Yr economi

<b>Effaith</b>	<p>Mae Cynllun Corfforaethol y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn nodi sut y bydd awdurdodau Powys, Ceredigion a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cydweithio i wella llesiant economaidd Rhanbarth y Canolbarth. Yn ogystal â'r economi, bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig hefyd yn cynnwys meysydd Trafnidiaeth a Chynllunio, y mae'r ddau yn effeithio ar iechyd economaidd y rhanbarth.</p> <p>Bydd gwaith y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn strategol ei natur ac yn sefydlu cysylltiad rhwng polisïau Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol. Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cyflwyno polisi rhanbarthol a gallai weithredu prosiectau traws-ranbarthol pan fo'n briodol gwneud hynny. Fel y nodwyd eisoes, bydd y gwaith hwn wedi'i gyfyngu i feysydd yr Economi, Trafnidiaeth a Chynllunio.</p>
<b>Dyfarniad effaith</b>	Da

<b>Lliniaru</b>	Bydd y cydweithio cynyddol rhwng Powys, Ceredigion a Bannau Brycheiniog yn sicrhau y bydd y gwasanaethau hynny sy'n dibynnu ar gynllunio rhanbarthol yn elwa o drefniadau partneriaeth cynyddol a mwy ffurfiol. Bydd y gwasanaethau hynny a ddarperir orau o fewn daearyddiaeth bresennol pob ardal awdurdod lleol yng ngwasanaethau'r Economi, Trafnidiaeth a Chynllunio yn parhau i gael eu darparu yn lleol. Dim ond y gwasanaethau hynny a fydd yn elwa o weithio rhanbarthol fydd yn ddarostyngedig i'r cynllun hwn. Bydd penderfyniadau yn ymwneud â'r cynllun yn cael eu gwneud gan Arweinwyr y ddau Gyngor priodol ynghyd â Chadeirydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a bydd yr olaf o'r rhain wedi'i gyfyngu i Ddatblygiad Cynllunio Strategol.
-----------------	---

<b>Dyfarniad effaith wedi'i lliniaru</b>	Da
--	----

#### 4b. Iechyd a gofal

<b>Effaith</b>	<p>Ceir llawer o dystiolaeth bod gan welliannau yn yr economi y potensial i sicrhau canlyniadau iechyd buddiol i bobl. Nod Cynllun Corfforaethol y Cyd-bwyllgor Corfforedig yw cyflwyno blaenoriaethau strategol a fydd yn arwain at welliannau yn yr economi ranbarthol dros gyfnod estynedig.</p> <p>Bydd y Cynllun yn ymgorffori nifer o amcanion Llesiant, y mae gan bob un ohonynt y potensial i gael effaith gadarnhaol ar drigolion y Canolbarth Cymru. O ystyried natur strategol y Cynllun, mater i'r awdurdodau unigol fydd penderfynu i ba raddau y mae'r cynllun yn effeithio ar ei ôl troed daearyddol ei hun, er y gellid rhoi mentrau ar y cyd ar waith o dro i dro.</p>
----------------	---

<b>Dyfarniad effaith</b>	Da
--------------------------	----

<p><b>Lliniaru</b></p>	<p>Bydd cydweithio agosach, mwy ffurfiol rhwng Powys, Ceredigion a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn sicrhau y bydd penderfyniadau rhanbarthol o ran yr Economi, Trafnidiaeth a Chynllunio yn briodol â gwell canlyniadau. Bydd gweithrediad cyson polisi ar gyfer ardaloedd mawr, pennaf wledig o Gymru hefyd yn rhoi mwy o eglurder a dealltwriaeth o bolisi i drigolion, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n agos at ffiniau.</p> <p>Bydd lliniaru rhag unrhyw effaith polisi negyddol yn cael ei sicrhau trwy wneud penderfyniadau a gweithrediad lleol y gellir eu teilwra i angen ac amgylchiadau lleol.</p>
------------------------	--

<p><b>Dyfarniad effaith wedi'i lliniaru</b></p>	<p>Da</p>
---	-----------

#### 4c. Dysgu a sgiliau

<p><b>Effaith</b></p>	<p>Yn rhan o'r cydweithio presennol rhwng Powys a Cheredigion, lluniwyd Bargaen Twf Canolbarth Cymru a fydd yn arwain at fuddsoddiad sylweddol yn economi'r rhanbarth dros y 10-15 mlynedd nesaf. Mae'r amcan o gynyddu sgiliau a dysgu yn y gweithle yn rhan allweddol o'r Fargen Dwf a bydd yn helpu i gynyddu ffyniant y rhanbarth dros amser. Mae gan yr amcan o gynyddu ffyniant yn y rhanbarth, yn arwain at gyfraddau cyflog uwch, y potensial o helpu teuluoedd i symud allan o dlodi.</p> <p>Mae sefydlu Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru sy'n adlewyrchu daearyddiaeth y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac sy'n cyd-fynd yn agos â'r gwaith sy'n gysylltiedig â Bargaen Twf Canolbarth Cymru yn golygu bod yr agenda sgiliau gweithle yn ganolog i gynlluniau ar gyfer yr economi.</p>
-----------------------	---

<p><b>Dyfarniad effaith</b></p>	<p>Da</p>
---------------------------------	-----------

<p><b>Lliniaru</b></p>	<p>Bydd mwy o sgiliau a gwybodaeth yn yr amgylchedd gwaith yn arwain at swyddi sy'n talu'n well gan gynyddu ffyniant y rhanbarth.</p> <p>Hefyd, bydd sylfaen sgiliau fwy yn rhanbarth y canolbarth yn cynyddu llwyddiant busnesau lleol ac yn cynyddu dros amser lefel y buddsoddiad lleol yn yr ardal.</p>
------------------------	---

<p><b>Dyfarniad effaith wedi'i lliniaru</b></p>	<p>Da</p>
---	-----------

#### 4d. Trigolion a chymunedau

<p><b>Effaith</b></p>	<p>Bydd twf economaidd y rhanbarth yn sicrhau bod cymunedau yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol hirdymor. Gan fod tueddiad i bobl iau adael y rhanbarth ar gyfer cyfleoedd gwaith gwell mewn mannau eraill, mae angen darparu swyddi hynod fedrus sy'n talu'n dda yn y rhanbarth i fynd i'r afael â'r tueddiad hwn. Yn sgil hynny, mae angen mynd i'r afael â'r anghydwysedd yn nemograffeg poblogaeth y canolbarth a thrwy gadw mwy o bobl ifanc yn yr ardal, a fydd yn cael effaith gadarnhaol wedyn ar gynaliadwyedd cymunedau lleol.</p>
-----------------------	---

<p><b>Dyfarniad effaith</b></p> <p><b>Lliniaru</b></p>	<p>Da</p> <p>Bydd cymunedau yn dod yn fwy cynaliadwy oherwydd cynnydd i gyfleoedd gwaith a fydd o gymorth penodol i gadw pobl iau yn y rhanbarth.</p>
--	---

<p><b>Dyfarniad effaith wedi'i lliniaru</b></p>	<p>Da</p>
---	-----------

#### 4e. Tystiolaeth

Er bod gan y ddau Gyngor a PCBB hanes maith o gydweithio ar nifer o fentrau a meysydd gwasanaeth, yr ysgogiad allweddol ar gyfer ffurfioli'r berthynas yw deddfwriaeth a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru. Y realiti felly yw bod yn rhaid i awdurdodau lleol yn rhanbarth y canolbarth fodloni gofynion y deddfwriaeth o ran gweithio rhanbarthol. O'r herwydd, mae dyletswydd i gydymffurfio.

## 5. Effaith ar nodau llesiant gan gynnwys y Gymraeg a chydraddoldebau.

### 5a. Cymru lewyrchus

<b>Effaith</b>	Bydd darparu'r Fargen Twf dros y degawd nesaf a thu hwnt yn helpu i wella iechyd economaidd y rhanbarth trwy gynyddu nifer y swyddi, gwella cyflogau, a chynyddu buddsoddiad. Bydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i adnewyddu yn helpu i nodi gwelliannau i'r ffordd y mae trafndiaeth yn cael ei chynllunio a'i darparu a fydd yn gwella mynediad at gyfleoedd hamdden a gwaith. Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu cynaliadwy ar sail ranbarthol a fydd yn cyfrannu at CDLlau ac yna'n cael effaith gadarnhaol ar ffyniant cymunedau lleol.
<b>Dyfarniad effaith</b>	Da
<b>Lliniaru</b>	Gan fod y rhanbarth wedi'i gyfansoddi o dri awdurdod yn unig, ceir rheolaeth a dylanwad sylweddol dros yr hyn y bydd y Cynllun Corfforaethol yn ei gynnwys. O'r herwydd, mae'n annhebygol y bydd unrhyw strategaeth neu bolisi a ddatblygir yn gwrthdaro â Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion unigol y Cynghorau/ PCBB. Felly bydd y lefel o fewnbwn uniongyrchol i'r cynllun yn sicrhau aliniad â Chynllun Corfforedig pob awdurdod lleol ei hun. Disgwylir y bydd hyn yn lliniaru unrhyw debygolrwydd y bydd unrhyw wrthdaro â strategaeth neu/a pholisi presennol.
<b>Dyfarniad effaith wedi'i lliniaru</b>	Da

### 5b. Cymru gydnerth

<b>Effaith</b>	Defnyddiwyd egwyddorion y Nodau Cenedlaethol eisoes fel sail i ddatblygiad prosiectau o fewn Bargen Twf Canolbarth Cymru a byddant yn parhau i gael eu defnyddio i ysgogi dull cynaliadwy o ddatblygiad economaidd. Bydd Strategaeth Drafnidiaeth Ranbarthol wedi'i hadnewyddu yn cynnig cyfle i alinio polisi rhanbarthol â chyfeiriad cenedlaethol, gyda phwyslais penodol ar gynaliadwyedd. Bydd dyletswydd i ddilyn canllawiau a pholisi Llywodraeth Cymru mewn amrywiaeth eang o feysydd a fydd yn sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol posibl yn cael eu lleihau, eu lliniaru neu eu dileu.
----------------	---

<b>Dyfarniad effaith</b>	Da
--------------------------	----

<b>Lliniaru</b>	Gan fod y rhanbarth wedi'i gyfansoddi o dri awdurdod yn unig, ceir rheolaeth a dylanwad sylweddol dros yr hyn y bydd y Cynllun Corfforaethol yn ei gynnwys. O'r herwydd, mae'n annhebygol y bydd unrhyw strategaeth neu bolisi a ddatblygir yn gwrthdaro â Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion unigol y Cynghorau/ PCBB. Felly bydd y lefel o fewnbwn uniongyrchol i'r cynllun yn sicrhau aliniad â chynllun corfforedig pob awdurdod lleol ei hun. Disgwylir y bydd hyn yn lliniaru unrhyw debygolrwydd y bydd unrhyw wrthdaro â strategaeth neu/a pholisi presennol.
-----------------	--

<b>Dyfarniad effaith wedi'i lliniaru</b>	Da
--	----

### 5c. Cymru iachach

<b>Effaith</b>	<p>Bydd gwella ffyniant poblogaeth y canolbarth yn helpu i wella buddion iechyd i gymunedau. Ceir tystiolaeth dda o'r gyberthynas rhwng ffyniant ac iechyd o waith ymchwil. Mae trafndiaeth hygyrch a chynaliadwy hefyd yn allweddol i alluogi pobl i gael mynediad at wasanaethau iechyd, a ffordd iach o fyw y gall datblygu lleol sicrhau bod cydraddoldebau iechyd yn ganolog i bolisi cynllunio.</p> <p>Nid oes unrhyw brosiectau yn ymwneud ag unrhyw un o'r ardaloedd sy'n ddarostyngedig i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi'u cymeradwyo eto ac felly prin yw'r manylion ychwanegol y gellir eu darparu ar hyn o bryd. Bydd yr Aseiad Effaith hwn yn cael ei adolygu yn rheolaidd i sicrhau bod yr aseiad yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol wrth i waith ddatblygu.</p>
----------------	---

**Dyfarniad effaith**

Da

**Lliniaru**

Gan fod y rhanbarth wedi'i gyfansoddi o dri awdurdod yn unig, ceir rheolaeth a dylanwad sylweddol dros yr hyn y bydd y Cynllun Corfforaethol yn ei gynnwys. O'r herwydd, mae'n annhebygol y bydd unrhyw strategaeth neu bolisi a ddatblygir yn gwrthdaro â Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion unigol y Cynghorau/ PCBB. Felly bydd y lefel o fewnbwn uniongyrchol i'r cynllun yn sicrhau aliniad â chynllun corfforedig pob awdurdod lleol ei hun. Disgwylir y bydd hyn yn lliniaru unrhyw debygolrwydd y bydd unrhyw wrthdaro â strategaeth neu/a pholisi presennol.

**Dyfarniad effaith wedi'i lliniaru**

Da

**5d. Cymru o gymunedau cydlynus****Effaith**

Mae economi fywiog yn ganolog i gymuned iach. Mae amrywiaeth o gyfleoedd gwaith sy'n cynnig cyflogau da yn rhan o economi lwyddiannus ac mae amodau o'r fath yn helpu i gynnal a thyfu cymunedau lleol. Mae cysylltiadau trafnidiaeth a chysylltedd cryf hefyd yn nodwedd hanfodol o fywyd cymunedol yn enwedig mewn ardal wledig prin ei phoblogaeth. Yn ogystal â'r pethau hyn, mae fframwaith datblygiad cynllunio cryf lle gall cyfleoedd datblygu a ysgogir yn lleol ddatblygu hefyd yn allweddol o gymuned fywiog a chryf. Felly mae gan y gwaith y bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ei oruchwylio y potensial i gael effaith gadarnhaol sylweddol ar gydlyniant cymunedol. Mae'n rhy gynnar i fod yn fwy penodol ynghylch beth gallai hyn fod yn y cyfnod ffurfiannol hwn o ddatblygiad y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

**Dyfarniad effaith**

Da

**Lliniaru**

Gan fod y rhanbarth wedi'i gyfansoddi o dri awdurdod yn unig, ceir rheolaeth a dylanwad sylweddol dros yr hyn y bydd y Cynllun Corfforaethol yn ei gynnwys. O'r herwydd, mae'n annhebygol y bydd unrhyw strategaeth neu bolisi a ddatblygir yn gwrthdaro â Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion unigol y Cynghorau/ PCBB. Felly bydd y lefel o fewnbwn uniongyrchol i'r cynllun yn sicrhau aliniad â chynllun corfforedig pob awdurdod lleol ei hun. Disgwylir y bydd hyn yn lliniaru unrhyw debygolrwydd y bydd unrhyw wrthdaro â strategaeth neu/a pholisi presennol.

**Dyfarniad effaith wedi'i lliniaru**

Da

**5e. Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang**



<b>Effaith</b>	<p>Mae'n ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ystyried amrywiaeth eang o strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf yr Amgylchedd Cymru A Cymru'r Dyfodol - y Cynllun Cenedlaethol ymhlith eraill. Mae cyfle cyfartal, llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol a thegwch yn ganolog i'r cynlluniau hyn.</p> <p>Mae Cynllun Corfforaethol y Cyd-bwyllgor Corfforedig hefyd yn adlewyrchiad o werthoedd a chredoau y sefydliadau sy'n lletya fel y maent wedi'u cynnwys yn eu cynlluniau corfforedig penodol i'w sefydliadau eu hunain. Mae'r cynlluniau hyn yn adlewyrchu'n gryf y gwerthoedd sydd gan aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig eisoes. Mae'n rhy gynnar yn natblygiad y Cyd-bwyllgor Corfforedig i gyfeirio'n benodol at gamau a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr amcan hwn, ond dylai fod yn eglur o'r cynllun bod y bwriad o wneud hynny wedi'i ddatgan yn eglur.</p>
----------------	---

<b>Dyfarniad effaith</b>	Da
--------------------------	----

<b>Lliniaru</b>	<p>Gan fod y rhanbarth wedi'i gyfansoddi o dri awdurdod yn unig, ceir rheolaeth a dylanwad sylweddol dros yr hyn y bydd y Cynllun Corfforaethol yn ei gynnwys. O'r herwydd, mae'n annhebygol y bydd unrhyw strategaeth neu bolisi a ddatblygir yn gwrthdaro â Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion unigol y Cynghorau/ PCBB. Felly bydd y lefel o fewnbwn uniongyrchol i'r cynllun yn sicrhau aliniad â chynllun corfforedig pob awdurdod lleol ei hun. Disgwylir y bydd hyn yn lliniaru unrhyw debygolrwydd y bydd unrhyw wrthdaro â strategaeth neu/a pholisi presennol.</p>
-----------------	---

<b>Dyfarniad effaith wedi'i lliniaru</b>	Da
--	----

## 5f. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

### Defnyddio'r Gymraeg

<b>Effaith</b>	Bydd cynyddu cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch economaidd, mynediad at waith a gwasanaethau ochr yn ochr ag amgylchedd ffisegol gwell a mwy deniadol yn helpu i gadw pobl yn y rhanbarth. Bydd hyn yn cyfrannu at gryfhau diwylliant lleol. Bydd twf y Gymraeg yn cael ei wella os bydd cymunedau yn aros yn hyfyw ac yn gynaliadwy, ac yn meddu ar gysylltedd cryf. Mae gwaith y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn canolbwyntio ar wella'r economi a thrafnidiaeth o fewn fframwaith datblygu priodol. Bydd hyn yn arwain at wella economïau lleol a fydd yn helpu wedyn i gadw a thros amser cynyddu cyfleoedd i'r Gymraeg a diwylliant Cymru dyfu.
----------------	---

<b>Dyfarniad effaith</b>	Da
--------------------------	----

<b>Lliniaru</b>	Bydd cynyddu cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch economaidd, mynediad at waith a gwasanaethau ochr yn ochr ag amgylchedd ffisegol gwell a mwy deniadol yn helpu i gadw pobl yn y rhanbarth. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gam ffurfiannol o'i ddatblygiad ac nid yw prosiectau manwl wedi'u datblygu'n llawn eto. Bydd hyn yn digwydd dros amser ac yn adlewyrchu'r gwerthoedd diwylliant cryf sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Gorfforedig. Bydd yr Asesiad Effaith hwn yn cael ei adolygu wrth i gynlluniau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ddatblygu fel y gellir ychwanegu mwy o fanylion wrth i gynnydd gael ei wneud.
-----------------	--

<b>Dyfarniad effaith wedi'i lliniaru</b>	Da
--	----

## Hybu'r Gymraeg

<b>Effaith</b>	Bydd cynyddu cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch economaidd, mynediad at waith a gwasanaethau ochr yn ochr ag amgylchedd ffisegol gwell a mwy deniadol yn helpu i gadw pobl yn y rhanbarth. Bydd hyn yn cyfrannu wedyn at gryfhau diwylliant lleol.
----------------	---

<b>Dyfarniad effaith</b>	Da
--------------------------	----

<b>Lliniaru</b>	Gan fod y rhanbarth wedi'i gyfansoddi o dri awdurdod yn unig, ceir rheolaeth a dylanwad sylweddol dros yr hyn y bydd y Cynllun Corfforaethol yn ei gynnwys. O'r herwydd, mae'n annhebygol y bydd unrhyw strategaeth neu bolisi a ddatblygir yn gwrthdaro â Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion unigol y Cynghorau/ PCBB. Bydd y lefel o fewnbwn uniongyrchol i'r cynllun yn sicrhau aliniad â chynllun corfforedig pob awdurdod lleol ei hun. Disgwylir y bydd hyn yn lliniaru unrhyw debygolrwydd y bydd unrhyw wrthdaro â strategaeth neu/a pholisi presennol. O ran y Gymraeg, mae Cynghorau Powys a Cheredigion wedi gwneud ymrwymïadau cryf i gynnal a gwella cyfleoedd i'r iaith ffynnu a
-----------------	---

bydd hyn yr un fath yng nghyswllt y Cynllun Corfforaethol ar gyfer y Cydbwyllgor Corfforedig.

**Dyfarniad effaith  
wedi'i lliniaru**

Da

### Chwaraeon, Celf a Hamdden

**Effaith**

Bydd cynyddu cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch economaidd, mynediad at waith a gwasanaethau ochr yn ochr ag amgylchedd ffisegol gwell a mwy deniadol yn helpu i gadw pobl yn y rhanbarth. Bydd cynaliadwyedd clybiau, cyfleusterau ac amrywiaeth eang o gyfleoedd chwaraeon a hamdden yn dibynnu ar economi fywiog sy'n cadw ac yn denu pobl i ranbarth y canolbarth.

**Dyfarniad effaith**

Da

**Lliniaru**

Gan fod y rhanbarth wedi'i gyfansoddi o dri awdurdod yn unig, ceir rheolaeth a dylanwad sylweddol dros yr hyn y bydd y Cynllun Corfforaethol yn ei gynnwys. O'r herwydd, mae'n annhebygol y bydd unrhyw strategaeth neu bolisi a ddatblygir yn gwrthdaro â Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion unigol y Cynghorau/ PCBB. Felly bydd y lefel o fewnbwn uniongyrchol i'r cynllun yn sicrhau aliniad â chynllun corfforedig pob awdurdod lleol ei hun. Disgwylir felly y bydd hyn yn lliniaru unrhyw debygolrwydd y bydd unrhyw wrthdaro â strategaeth neu/a pholisi presennol.

**Dyfarniad effaith  
wedi'i lliniaru**

Da

### 5g. Cymru sy'n fwy cyfartal

Oedran

<b>Effaith</b>	Bydd ehangu cyfleoedd ar draws y rhanbarth i gael mynediad at swyddi yn cynyddu mynediad i'r rhai sydd wedi'u hallgau ar hyn o bryd.
<b>Dyfarniad effaith</b>	Da
<b>Lliniaru</b>	Gwell buddsoddiad mewn swyddi a thwf.
<b>Dyfarniad effaith wedi'i lliniaru</b>	Da

#### Anabledd

<b>Effaith</b>	Bydd ehangu cyfleoedd ar draws y rhanbarth i gael mynediad at swyddi yn cynyddu mynediad i'r rhai sydd wedi'u hallgau ar hyn o bryd.
<b>Dyfarniad effaith</b>	Da
<b>Lliniaru</b>	Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig dal ar gam ffurfiannol ac nid yw cynlluniau a phrosiectau manwl wedi cael eu hystyried eto. O'r herwydd, bydd yr Aseiad Effaith hwn yn cael ei ddiweddarau wrth i'r cynlluniau hyn ddatblygu i sicrhau ei fod yn aros yn gyfredol.
<b>Dyfarniad effaith wedi'i lliniaru</b>	Da

#### Ailbennu Rhywedd

<b>Effaith</b>	Dim
----------------	-----

#### Priodas neu Bartneriaeth Sifil

<b>Effaith</b>	Dim
----------------	-----

#### Hil

<b>Effaith</b>	Dim
----------------	-----

#### Crefydd neu Gred

<b>Effaith</b>	Dim
----------------	-----

#### Rhyw

<b>Effaith</b>	Bydd ehangu cyfleoedd ar draws y rhanbarth i gael mynediad at swyddi yn cynyddu mynediad i'r rhai sydd wedi'u hallgau ar hyn o bryd.
<b>Dyfarniad effaith</b>	Da

<b>Lliniaru</b>	Gan fod y rhanbarth wedi'i gyfansoddi o dri awdurdod yn unig, ceir rheolaeth a dylanwad sylweddol dros yr hyn y bydd y Cynllun Corfforaethol yn ei gynnwys. O'r herwydd, mae'n annhebygol y bydd unrhyw strategaeth neu bolisi a ddatblygir yn gwrthdaro â Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion unigol y Cynghorau/ PCBB. Felly bydd y lefel o fewnbwn uniongyrchol i'r cynllun yn sicrhau aliniad â chynllun corfforedig pob awdurdod lleol ei hun. Disgwylir felly y bydd hyn yn lliniaru unrhyw debygolrwydd y bydd unrhyw wrthdaro â strategaeth neu/a pholisi presennol.
-----------------	--

<b>Dyfarniad effaith wedi'i lliniaru</b>	Da
--	----

#### Cyfeiriadedd Rhywiol

<b>Effaith</b>	Dim
----------------	-----

#### Beichiogrwydd a Mamolaeth

<b>Effaith</b>	Dim
----------------	-----

#### Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol

<b>Effaith</b>	Un o amcanion sylfaenol y Fargen Twf yw cynyddu gwerth swyddi yn y rhanbarth a lleihau cyflogau isel.
<b>Dyfarniad effaith</b>	Da

<b>Lliniaru</b>	Gan fod y rhanbarth wedi'i gyfansoddi o dri awdurdod yn unig, ceir rheolaeth a dylanwad sylweddol dros yr hyn y bydd y Cynllun Corfforaethol yn ei gynnwys. O'r herwydd, mae'n annhebygol y bydd unrhyw strategaeth neu bolisi a ddatblygir yn gwrthdaro â Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion unigol y Cynghorau/ PCBB. Felly bydd y lefel o fewnbwn uniongyrchol i'r cynllun yn sicrhau aliniad â chynllun corfforedig pob awdurdod lleol ei hun. Disgwylir felly y bydd hyn yn lliniaru unrhyw debygolrwydd y bydd unrhyw wrthdaro â strategaeth neu/a pholisi presennol.
-----------------	--

<b>Dyfarniad effaith wedi'i lliniaru</b>	Da
--	----

#### 5h. Tystiolaeth

Mae datblygiad Cynllun Corfforaethol cyntaf y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn strategaeth hirdymor. Mae'n seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei wybod am ranbarth y canolbarth y ceir tystiolaeth ohono o waith ymchwil blaenorol helaeth yn ymwneud â busnes, trafnidiaeth a chynllunio i gyd trwy ymgynghori o ffynonellau lleol.

Deddfwyd ar gyfer y gofyniad i ddatblygu rhanbarthau daearyddol i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau ar sail strategol gan Lywodraeth Cymru. Felly mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r dull hwn ac mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Cydnabyddir felly bod elfen o risg o ran a fydd y buddion a ddisgwylir yn cael eu gwireddu. Mae effaith ffactorau na ellir eu rheoli yn golygu y gallai newidiadau i'r amgylchedd allanol effeithio'n negyddol ar yr hyn y gobeithir bydd yn cael ei gyflawni. Wrth i brosiectau ddatblygu o fewn fframwaith y Strategaeth Gorfforedig, byddant yn destun prosesau fel y Model Busnes Pum Achos. O'r herwydd, bydd profion llym yn cael eu cynnal i wirio bod unrhyw gynigion yn gadarn o ran y gallu i'w cyflawni, fforddiadwyedd a budd.

## 6. Effaith ar egwyddorion canllaw allweddol a'r gweithlu

### 6a. Egwyddorion datblygu cynaliadwy

#### Hirdymor

<b>Effaith</b>	Cyflawni buddion hirdymor yw natur Cynllun Strategol y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae natur strategol cynlluniau rhanbarthol yn golygu y bydd cynigion sy'n deillio o'r bartneriaeth angen asesiadau mwy manwl a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aseiad Effaith gael ei ailystyried nifer o weithiau i sicrhau cydymffurfiad â'r gwahanol ofynion. Felly er bod tystiolaeth yn fwy cyffredinol ar hyn o bryd, ymhen amser bydd dull mwy gronynnog a fforensig yn penderfynu a yw'r egwyddorion hyn yn cael eu bodloni. Ceir gofyniad eglur yn ddeddfwriaethol hefyd bod cydymffurfiad â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 y bydd Llywodraeth Cymru yr un mor awyddus i sicrhau cydymffurfiad â hi.
<b>Dyfarniad effaith</b>	Da
<b>Lliniaru</b>	Wrth i gynlluniau manwl ddatblygu, bydd asesiadau parhaus yn cael eu cynnal i asesu effeithiau cynigion sy'n dod i'r amlwg.
<b>Dyfarniad effaith wedi'i lliniaru</b>	Da

#### Cydweithrediad

<b>Effaith</b>	Mae meysydd gwasanaeth yr Economi, Trafnidiaeth a Chynllunio angen ymgynghori helaeth er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol ac yr un mor bwysig, i sicrhau ymgysylltiad llawn a phriodol gyda rhanddeiliaid. Felly, wrth i'r strategaeth gael ei datblygu yn gynlluniau mwy manwl, bydd y broses ymgynghori yn sicrhau gwaith partneriaeth gwell a pharhaus. Hefyd, bydd y gwaith partneriaeth cynyddol y bydd ei angen o ganlyniad i ffurfio'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cynnig buddion ar draws y rhanbarth.
----------------	--

<b>Dyfarniad effaith</b>	Da
<b>Lliniaru</b>	Nid yw hyn wedi'i benderfynu eto, ond wrth i waith ddatblygu bydd y mater hwn yn cael ei ailystyried i sicrhau effeithiau cadarnhaol tra'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.
<b>Dyfarniad effaith wedi'i lliniaru</b>	Da

### Cyfranogiad (gan gynnwys Cyfathrebu ac Ymgysylltu)

<b>Effaith</b>	Eto, wrth i gynlluniau manwl gael eu datblygu, bydd ymgynghori helaeth a chynhwysol yn cael ei wneud a fydd yn sicrhau bod pawb yng nghymunedau'r rhanbarth yn cael cyfle teg i gyfrannu at sut mae cynlluniau yn cael eu datblygu a'u llunio. Bydd Cynllun Corfforaethol y Cyd-bwyllgor Corfforedig hefyd yn destun ymgynghoriad eang cyn iddo gael ei ddiwygio ac yna ei fabwysiadu'n ffurfiol.
----------------	---

<b>Dyfarniad effaith</b>	Da
--------------------------	----

<b>Lliniaru</b>	Bydd ymateb â thystiolaeth i brosesau ymgynghori helaeth yn cael ei ddarparu a fydd yn dangos sut yr ymatebwyd i sylwadau a/neu sut mae'r cynllun wedi newid o ganlyniad.
<b>Dyfarniad effaith wedi'i lliniaru</b>	Da

Atal

<b>Effaith</b>	Y bwriad yw datblygu partneriaeth strategol sydd â mwy o fynediad at ffynhonnell fwy o wybodaeth a thystiolaeth, i sicrhau bod cyfleoedd buddsoddi o'r budd mwyaf i gymunedau'r rhanbarth.
<b>Dyfarniad effaith</b>	Da
<b>Lliniaru</b>	Bydd newidiadau i gynlluniau mewn ymateb i ymgynghori helaeth yn helpu i lunio cynigion manwl a fydd o fudd i gymunedau ar draws y rhanbarth.
<b>Dyfarniad effaith wedi'i lliniaru</b>	Da

### Integreiddio

<b>Effaith</b>	Bydd y Nodau Llesiant a nodir yng Nghynllun Corfforedig y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael eu hasesu yn erbyn nodau Llesiant yr awdurdod lleol a rhai Llywodraeth Cymru. Wrth i gynlluniau aeddfedu, bydd dull ailadroddol yn cael ei fabwysiadu i sicrhau bod y nodau hyn yn cael eu hasesu a'u halinio yn barhaus.
----------------	--

<b>Dyfarniad effaith</b>	Da
<b>Lliniaru</b>	Ymgynghori ac asesu parhaus yn erbyn y Nodau Llesiant.
<b>Dyfarniad effaith wedi'i lliniaru</b>	Da

### 6b. Effaith ar y gweithlu

<b>Effaith</b>	Dim
----------------	-----

### 6c. Effaith ar y gyflogres

<b>Effaith</b>	Dim
----------------	-----

### 6d. Effaith ar staff o ran y Gymraeg

<b>Effaith</b>	Dim
----------------	-----

### 6e. Effaith ar brentisiaethau

<b>Effaith</b>	Dim
----------------	-----

### 6f. Tystiolaeth



Bydd y Cynllun Corfforaethol yn destun ymgynghori eang a bydd tystiolaeth yn cael ei chasglu a fydd yn cynnwys ymgynghori ar yr asesiad hwn. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig hefyd yn ofyniad gan Lywodraeth Cymru.

## 7. Tebygolrwydd a risgiau

### Risg 1

<b>Disgrifiad</b>	Oherwydd yr amser y mae cyfleoedd buddsoddi strategol yn ei gymryd i'w datblygu a'u gweithredu, y risg yw y bydd yr amgylchedd allanol y datblygwyd cynigion ar eu sail yn wreiddiol yn newid gan effeithio ar y canlyniadau a ddisgwylir.				
<b>Sgôr tebygolrwydd</b>	3	<b>Sgôr effaith</b>	3	<b>Sgôr risg</b>	9.0
<b>Lliniaru</b>					
<b>Sgôr tebygolrwydd gweddilliol</b>	Dylai natur ffrensig y broses asesu a ddefnyddir i wneud penderfyniadau buddsoddi gynnal profion straen ar gynigion cymaint ag sy'n rhesymol ymarferol.				
	2	<b>Sgôr effaith weddilliol</b>	3	<b>Cyfradd risg weddilliol</b>	6.0

## 8. Crynodeb gyffredinol a dyfarniad

### Asesiad amlinellol

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gam cynnar ei ddatblygiad. Fel dogfen ranbarthol, fel mae'n strategol ac yn lefel uchel yn ôl diffiniad. Wrth iddi ddatblygu, ac wrth i gynnydd gael ei wneud ym meysydd penodol yr Economi, Trafnidiaeth a Chynlluniau, bydd Aseidiadau Effaith mwy manwl yn cael eu cynnal a bryd hynny bydd angen diwygio'r Aseidiad Integredig (Asesiad Effaith) hwn.

Cyfeirnod cabinet

## 9. Tystiolaeth ychwanegol

Mae'r angen i ddatblygu Cynllun Corfforaethol ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ddisgwyliad gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhanbarth wedi dewis bodloni'r disgwyliad hwn, a thrwy wneud

hynny wedi dilyn y canllawiau sydd ar gael. Defnyddiwyd data a thystiolaeth eisoes i ddatblygu Bargen Twf Canolbarth Cymru ond bydd mwy o dystiolaeth yn cael ei chynhyrchu gan ddatblygiad prosiectau manwl. Bydd hyn yr un fath ar gyfer datblygu cynigion Trafnidiaeth a Chynllunio sydd ar gam cynnar iawn ar hyn o bryd.

## 10. Trefniadau monitro parhaus a llywodraethu

### Trefniadau monitro

Bydd y Cynllun Corfforaethol yn destun nifer o brosesau i fonitro cynnydd. Bydd gan Gyd-bwyllgorau Archwilio a Chraffu'r Cynghorau swyddogaeth barhaus i fonitro gwaith y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac asesu ei effeithiau yn erbyn ymrwymadau a wnaed yn y cynllun/iau esblygol. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn gwerthuso'r cynllun ei hun, a hefyd dros amser, llwyddiannau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn erbyn cynlluniau cyflawni. Bydd Llywodraeth Cymru, a wnaeth ddeddfu i greu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn parhau i fonitro cynnydd hefyd.

**Dyddiad adolygu**

01/07/2024



## Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol

### CYLCH GORCHWYL

#### Cyffredinol.

5.1 Yn amodol ar Reol 5.5. isod, gall y CBC drefnu i gyflawni ei swyddogaeth trwy:

- 5.1.1 Is-bwyllgor;
- 5.1.2 Aelod o staff;
- 5.1.3 Unrhyw gyd-bwyllgor corfforedig arall;
- 5.1.4 Unrhyw gyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru.

#### Aelodaeth

- 5.2 Gall is-bwyllgor a benodwyd gan y CBC gynnwys, neu fod wedi'i gynnwys yn llwyr, gydag unigolion nad ydynt yn aelodau o'r CBC.
- 5.3 Rhaid pennu swyddogaethau'r is-bwyllgor, nifer yr aelodau mewn is-bwyllgor a thymor pob aelod yn y swydd gan y CBC a gall yr is-bwyllgor ond ymarfer y swyddogaethau hynny fel y dirprwyir hwy iddo gan y CBC.

#### Dirprwyaeth

- 5.4 Yn amodol bob tro ar Reol 5.5 isod, mae'r CBC yn dirprwyo penderfyniadau gweithredol ar gyflawni ei swyddogaethau ac unrhyw beth sy'n ofynnol i hwyluso neu sy'n ffafriol neu'n ddeilliadol i gyflawni ei swyddogaethau fel y dynodir yn Adran 7.
- 5.5 Ni all y CBC ddirprwyo unrhyw un o'r canlynol i unrhyw unigolyn nac is-bwyllgor arall:
  - 5.5.1 Ei swyddogaeth o ran datblygu polisiâu dan ddarpariaethau perthnasol Deddf Trafnidiaeth ("Swyddogaeth Polisi Trafnidiaeth");
  - 5.5.2 Ei swyddogaeth o ran llunio Cynllun Datblygu Strategol dan ddarpariaethau perthnasol Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (y "Swyddogaeth Cynllun Datblygu Strategol");
  - 5.5.3 Y penderfyniad i gytuno ar gyllidebau CBC a chyfyngiadau Cyngorau sy'n aelodau a'r Parc Cenedlaethol;
  - 5.5.4 Y penderfyniad i sefydlu is-bwyllgorau CBC; a
  - 5.5.5 Phenderfyniadau a chyfrifoldebau penodol eraill a ddynodir yn y Rheoliadau Sefydlu.

### **Rheolau sy'n Berthnasol i Bob Is-bwyllgor.**

5.6 Mae'r Rheolau canlynol yn berthnasol i bob Is-bwyllgor:

- Rheol 4.29 i 4.30 (Lleoliad Cyfarfodydd)
- Rheolau 4.31 i 4.35 (Rhybudd o Gyfarfodydd a Gwysion i fynychu),
- Rheolau 4.37 i 4.38 (Mynychu o Bell)
- Rheol 4.40 (Cynigion Cau)
- Rheol 4.41 (Mater o Drefn)
- Rheolau 4.42 i 4.43 (Esboniad Personol)
- Rheol 4.44 i 4.46 (Datganiadau o Ddiddordeb)
- Rheolau 4.47 i 4.49 (Mynediad at Agenda ac Adroddiadau Cysylltiedig),
- Rheolau 4.50 i 4.52 a 4.54 i 4.55 (Cofnodion),
- Rheol 4.60 (Ffilmio, Recordio Clywedol a'r defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol yn ystod Cyfarfodydd)

## **Tudalen 41**

Rheolau 4.62 (Archwilio a Chyhoeddi Cofnodion a Dogfennau Eraill wedi Cyfarfodydd), a

Rheolau 4.63 Mae (Iaith a Chyfieithu) yn berthnasol i gyfarfod is-bwyllgor y CBC fel y maent yn berthnasol i gyfarfod y CBC.

Rheol 8.7 (Hawl i'r Cyhoedd i Fynychu)

### **Cworwm**

5.7 Rhaid i o leiaf un chwarter o aelodau'r Is-bwyllgor fod yn bresennol ym mhob cyfarfod a rhaid i Aelod o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fod yn bresennol:

5.7.1 mewn cyfarfodydd lle mae'r Cynllun Datblygu Strategol yn cael ei drafod; ac

5.7.2 ar gyfer penderfyniadau i newid gweithdrefnau pleidleisio mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Strategol.

### **Pleidleisio**

5.8 Mae un bleidlais gan bob unigolyn sydd â hawl i bleidleisio.

5.9 Bydd unrhyw bleidlais yn cael ei phenderfynu gan benderfyniad y mwyafrif.

5.10 Lle mae'r bleidlais yn gyfartal, y cadeirydd sydd â'r bleidlais fwrw.

### **Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol.**

5.13 Dylai'r CBC benodi Is-bwyllgor (a adwaenir fel Is-bwyllgor Cynllunio Rhanbarthol) o ymarfer datblygu polisiau trafndiaeth dan adrannau 108(1)(a) a (2A)(a) Rhan 2 Deddf Trafnidiaeth 2000.

5.14 Dynodir Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol yn Atodiad B a gellir diwygio'r cylch gorchwyl hynny gan y CBC o bryd i'w gilydd.  
**Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol – Cylch Gorchwyl**

**B1. Cyflwyniad**

- B1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi dwyn ymlaen y Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (**Swyddogaethau Trafnidiaeth**) (Addasiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Rheoliadau Swyddogaethau Trafnidiaeth 2022).
- B1.2 Mae Rheoliadau Swyddogaethau Trafnidiaeth 2022 yn newid y cyfrifoldebau dros swyddogaethau dan Adran 108 Deddf Trafnidiaeth 2000 gan symud y cyfrifoldeb dros gyflwyno cynllun trafndiaeth oddi wrth yr awdurdodau lleol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn diddymu Gorchymyn Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2014.
- B1.3 Sefydlwyd pwyllgor ar y cyd gan y Cynghorau sy'n Aelodau i oruchwylio a chydlynu cyflawni rhwymedigaethau'r Cynghorau o ran Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol.
- B1.4 Bydd y CBC yn penodi Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol i gynghori'r CBC ar ei swyddogaeth Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd yr is-bwyllgor yn gyfrifol am wneud yr argymhellion angenrheidiol i'r CBC o ran cyflwyno Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer y Cynghorau sy'n Aelodau.

**B2. Cyfansoddiad Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol**

- B2.1 Bydd cyfansoddiad a swyddogaethau'r Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys 6 aelod, 3 o bob un o'r Awdurdodau sy'n Aelodau. (i gynnwys aelodau gyda chyfrifoldeb dros drafndiaeth, priffyrdd a datblygiad economaidd)
- B2.2 Dylid ethol Cadeirydd yr Is-bwyllgor o Aelodau'r Awdurdodau sy'n Aelodau a'u cylchredu rhwng yr Awdurdodau ar sail flynyddol.

**B3. Argymhellion yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol**

- B3.1 Bydd yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol yn gwneud argymhellion i'r CBC o ran datblygu Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd gofyn i'r CBC ystyried yr argymhellion wedi hynny. Os na chaiff yr argymhellion eu cymeradwyo gan y CBC, efallai y byddant yn cael eu cyfeirio at yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol i'w hailystyried a'u hailgyflwyno i'r CBC.

**B4. Cyfarfodydd**

- B4.1 Dylai'r Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol gwrdd ar sail chwarterol o leiaf, neu ar amllder fel y dylai'r Is-bwyllgor ei bennu o bryd i'w gilydd er mwyn cyflawni ei rôl.
- B4.2 Gall yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol wahodd nifer o sefydliadau trydydd parti o'r fath i arsylwi Cyfarfodydd yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol fel y gwel yn dda o bryd i'w gilydd. Gall trydydd parti o'r fath gynnwys unigolion neu gynrychiolwyr o sefydliadau o'r fath a chwmnïau'r sector preifat fel y dylai'r Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol benderfynu o dro i dro.

## Tudalen 46

- B4.3 Dylai unrhyw drydydd parti a wahoddir i Gyfarfod Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol gael hawl i gymryd rhan mewn cyfarfod o'r fath ond ni ddylent allu pleidleisio o ran unrhyw benderfyniad a wneir. Gall y Cadeirydd ofyn i unrhyw drydydd parti sy'n bresennol mewn Cyfarfod Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol i beidio â mynychu ychydig neu unrhyw ran o Gyfarfod Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol.
- B4.4 Gellir cynnal Cyfarfod Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol yn unol â Rheolau 4.29 i 4.30 (Lleoliad) a 4.37 i 4.38 (Cyfarfodydd o Bell).
- B4.5 Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn gyhoeddus a bydd trefniadau i gyhoeddi a chael mynediad at ddogfennau'r un fath â threfniadau ar gyfer y CBC fel y nodir yn Adran 4.

### B5. Cworwm

- B5.1 Dylai'r cworwm sy'n angenrheidiol ar gyfer Cyfarfod yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol gael o leiaf dau aelod etholedig o'r Cynghorau sy'n Aelod neu'r cynrychiolwyr priodol a benodir.

### B6. Pleidleisio

- B6.1 Yng nghyfarfodydd yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol, dylai pob aelod etholedig neu gynrychiolydd priodol a benodir sy'n mynychu cael un bleidlais yr un. Bydd penderfyniadau mewn cyfarfodydd yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol gael eu cymryd gan bleidlais y mwyafrif mewn cyfarfod cworwm.

### B7. Cofnodion

- B7.1 Rhaid cofnodi a llunio cofnodion gweithrediadau cyfarfod yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol. Rhaid cymeradwyo'r cofnodion gan yr unigolyn sy'n cadeirio cyfarfod yr Is-bwyllgor neu'r unigolyn sy'n cadeirio'r cyfarfod addas nesaf o'r fath trwy arwyddo'r cofnodion, neu trwy arwyddo cymeradwyaeth yn electronig.

### B8. Gweithrediadau Cyfarfodydd

- B8.1 Bydd Rheol 5.6 uchod yn berthnasol i gyfarfodydd yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol.
- B8.2 Dylai aelodau'r Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol fod yn destun y Cod Ymddygiad i Aelodau.
- B8.3 Gellir ail-drefnu, canslo neu gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol gyda chytundeb y Cadeirydd.
- B8.4 Bydd pob cyfarfod yn cael ei gofnodi trwy lunio nodiadau a fydd ar gael i'r cyhoedd ar-lein wedi'r cyfarfod heblaw am unrhyw wybodaeth gyfrinachol neu wedi'i heithrio. Fe fydd nodiadau'r cyfarfodydd fel arfer yn fyr, gan gynnwys crynodeb o drafodaethau, pwyntiau gweithredu ac argymhellion.
- B8.5 Nid corff gwneud penderfyniadau yw'r Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol i gyflwyno Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a dylai'r Cadeirydd anelu tuag at hwyluso cytundeb cydsyniol ar faterion dan ystyriaeth. Lle na ellir cyrraedd cydsyniad, dylai'r Cadeirydd gyflwyno safbwyntiau rhanedig y pwyllgor i'r CBC.

B8.6 Fe fydd y Cod Ymddygiad Aelodau yn Adran 9 yn berthnasol.

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol





Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth  
Mid Wales Corporate Joint Committee

**Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol**  
**Canolbarth Cymru**  
**Cynllun Gweithredu**



## 1. CYFLWYNIAD

Mae proses Llywodraethu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i dynodi yn y rheoliadau Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC), ac mae'r is-bwyllgor trafndiaeth rhanbarthol ffurfiol wedi'i sefydlu i ddarparu ymchwil a chynghor a chyfarwyddyd datblygu er mwyn cyflwyno argymhellion i'r CBC cyn gwneud ei benderfyniadau.

Er mwyn cefnogi Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol y CBC ymhellach, fe fydd yna weithgor swyddogion awdurdod lleol.

Mae gofyn i'r cyd-bwyllgor corfforedig gyflawni'r canlynol o ran Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, yn dilyn ei sefydlu yn 2022.

- ymarfer y swyddogaeth o ddatblygu polisiau dan adran 108(1)(a) a (2A)(a) Rhan 2 Deddf Trafnidiaeth 2004(4), o ran ardal pob cyngor sy'n aelod gan CBC Canolbarth Cymru, ac nid gan y cyngor sy'n aelod.

- Mae Rhan 2 Deddf Trafnidiaeth 2000 yn gymwys o ran CBC Canolbarth Cymru a'i gynghorau sy'n aelodau yn destun i'r diwygiadau yn yr Atodlen i Reoliadau Cyd-Bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021(5)

Diben y **Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol** (CTRh) fydd cyflwyno trafndiaeth ranbarthol erbyn mis Mawrth 2025 fel y dynodir ac yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023

[Cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol: cyfarwyddyd i Gyd-bwyllgorau Corfforedig | GOV.WALES](#)

Er bod y ddyletswydd i lunio CTRh yn gorwedd gyda'r CBCau, mae'r ddyletswydd i gyflwyno'r rhaglen o weithredoedd ar gyfer y CTRh yn gorwedd gyda'r awdurdodau lleol. Er gwaethaf hyn, disgwylir i awdurdodau lleol ym mhob CBC i gydweithio ar un cynllun cyflwyno casgliadol, sef CDTRh, ochr yn ochr â'r broses CTRh.

Mae Ardal y cynllun trafndiaeth rhanbarthol yn gorchuddio siroedd Ceredigion a Phowys, sydd hefyd yn cynnwys y mwyafrif o ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.


### *Lleoliad Ardal y Cynllun*



Mae Rhanbarth Canolbarth Cymru wedi ffurfio ei nod ac amcanion strategol trwy ymgysylltu gyda Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru (PTCC) sydd wedi dynodi'r nodau trafndiaeth i dyfu'r economi fel: - ***“I yrru twf economaidd a denu buddsoddiad newydd, rydym angen gwella cysylltedd i'r rhanbarth ac oddi mewn iddi. Fe fyddwn yn adeiladu ar ein cysylltiadau presennol i helpu cyflwyno'r rhwydwaith trafndiaeth sy'n ofynnol i helpu tyfu'r economi a chynyddu cynhyrchiant”***. Fe fydd hi'n bwysig gweithio gyda rhanddeiliaid trafndiaeth ehangach i sicrhau fod y Weledigaeth ar gyfer y CTRh yn ystyried y PTCC a'i fod hefyd yn cefnogi cyflwyno Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru.

Mae gofyn i'r CBC lunio **“Cynllun Gweithredu”** y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol erbyn y 31 Hydref 2023 sydd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru (LIC) a fydd yn dynodi sut y bydd y CTRh yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno erbyn 29 Mawrth 2025, a pha nawdd sy'n ofynnol i gyflawni'r dasg.

Mae'r Cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan LIC yn nodi'r angen ar gyfer y cynllun i ddyodi sut mae'n ystyried y Strategaethau a blaenoriaethau Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol.



**Ffigur 2: Cyd-destun Polisi ar gyfer Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol**

### 3. CWMPAS Y PRIF BECYNNAU GWAITH

Dengys tabl 1 yr hyn a ystyrir i fod yn brif becynnau gwaith sydd angen eu cwblhau i ddatblygu.

Pecyn Gwaith	Disgrifiad	Sefydliad Arweiniol	Prif Ddyddiadau
<b>Datblygu'r Achos dros Newid</b>			
Penodi sefydliad partner	Comisiynu ymgynghorwyr i gynorthwyo'r CBC wrth gyflwyno'r CTRh	CBC	Cyn gynted ag sy'n bosibl yn dilyn nawdd yn cael ei wobrwyo gan LIC. Tachwedd 2023
Cynllun ymgysylltu ag Aelodau a Phrif Randdeiliaid (i gynnwys	Gofyn am farn aelodau portffolio a/neu Aelodau eraill, a Phrif Randdeiliaid am y materion i'w cyfleu yn yr achos dros newid a'r polisiau / cynlluniau sydd	Angen cytundeb rhwng awdurdodau	Mae amserlenni tynn yn awgrymu fod y cam hwn yn angenrheidiol yn gynnar iawn yn broses.

Pecyn Gwaith	Disgrifiad	Sefydliad Arweiniol	Prif Ddyddiadau
gweithredoedd a chyflwyniad)	<p>eu hangen i fynd i'r afael â hwy.</p> <p>Cytuno ar ddull i ymgysylltu ag aelodau a phrif randdeiliaid.</p> <p>Llunio deunyddiau – dwyieithog, negeseuon clir a chryno ac ati.</p> <p>Cytuno ar nifer y digwyddiadau galw heibio a lleoliadau'r rhain.</p> <p>Cytuno ar unrhyw drefniadau a'r dull i ymgysylltu ag aelodau etholedig.</p> <p>Ystyried ffyrdd dyfeisgar o ymgysylltu â grwpiau sy'n anodd ymgysylltu â hwy.</p>		Tachwedd/Rhagfyr 2023
Cynnal Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) i ddynodi Achos Strategol dros newid	<p>Dynodi effaith rhanbarthol y canlynol ar y CTRh a thrafnidiaeth yn y dyfodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Llwybr Newydd, Strategaeth a Chynllun Cyflwyno Trafnidiaeth Cymru</li> <li>- Cynllun Datblygu Cenedlaethol a Chynllun Seilwaith Cenedlaethol</li> <li>- Cynlluniau Datblygu Lleol</li> <li>- Deddf Llesiant</li> <li>- Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol 2008</li> <li>- Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y cyd 2014</li> <li>- Cynlluniau Awdurdodau Lleol e.e. (Llesiant)</li> </ul>	Ymgynghoriaeth	<p>Perygl y bydd LIC angen cyhoeddi Cyfarwyddyd WelTAG newydd.</p> <p>Perygl – LIC angen cyhoeddi dogfen Llwybr Gwledig.</p>

Pecyn Gwaith	Disgrifiad	Sefydliad Arweiniol	Prif Ddyddiadau
	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cynlluniau Trawsffiniol (<i>Midland Connect</i>; Partneriaethau Cyflogaeth Lleol y Gororau a'r Adran Drafnidiaeth ar gyfer y Ffyrdd a Rheilffyrdd)</li> </ul>		
Data Trafnidiaeth Cymru (TC)	Trafnidiaeth Cymru i ddarparu set Data Trafnidiaeth Canolbarth Cymru i ymgynghorwyr	TC	
Arolwg o'r Dystiolaeth a Dynodi Materion a Chyfleoedd	<p>Mapio System Wybodaeth Ddaearyddol (GIS)</p> <p>Yn cynnwys Trafnidiaeth Gogledd a De-Orllewin a Thrafnidiaeth y Canolbarth ac Aberystwyth</p> <p>Canfyddiadau modelau</p> <p>Ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Natur wledig a mynediad at wasanaethau</li> <li>- Dibyniaeth ar gar</li> <li>- Bws – gwelliannau megis Bwcabus a Fflecsi, Traws, cyfleoedd o ryddfrenio a chynlluniau'r dyfodol</li> <li>- Rheilffordd – cyfle am gynigion a chysylltiadau ar draws y rhwydwaith a chysylltiadau Dwyrain-Gorllewin a Gogledd-De</li> <li>- Rhwydwaith ffyrdd e.e. A482, A479, A486, A487, A44, A470, A40, A483, A458,</li> </ul>	Ymgynghoriaeth	

Pecyn Gwaith	Disgrifiad	Sefydliad Arweiniol	Prif Ddyddiadau
	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cerdded a seiclo</li> <li>- Tai a thwf economaidd</li> <li>- Mynediad at Fannau Brycheiniog</li> <li>- Cefnogi twristiaeth</li> <li>- Cefnogi diwydiant</li> <li>- Tarddiad a chyrchfan teithiau, a phwysigrwydd symudiadau trawsffiniol</li> </ul>		
<p>Dynodi Gweledigaeth y CTRh</p>	<p>Gweledigaeth bresennol y CTRh:  Gweledigaeth ar gyfer Trafnidiaeth yng Nghanolbarth Cymru.  Bydd Awdurdodau Lleol yn cynllunio ar gyfer system drafnidiaeth fforddiadwy ac integredig ac yn ei chyflwyno mewn partneriaeth yn y rhanbarth gan hwyluso datblygiad economaidd, sicrhau mynediad at bob gwasanaeth a chyfleoedd, cynnal a gwella ansawdd bywyd cymunedol, ac a fydd yn gwneud cyfraniad gweithgar tuag at reoli carbon ac ansawdd yr amgylchedd.</p> <p>Gweledigaeth Tyfu Canolbarth Cymru newydd (2023)</p> <p>Ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Mynediad at gyflogaeth, gwasanaethau ac atyniadau</li> <li>- Rhwydweithiau teithio llesol a chludiant</li> </ul>	<p>Gweithgor y CTRh – wedi trafodaeth gydag ALLau a rhanddeiliaid</p>	

Pecyn Gwaith	Disgrifiad	Sefydliad Arweiniol	Prif Ddyddiadau
	<p>cyhoeddus o ansawdd uchel</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Sero Net – Newid Hinsawdd</li> </ul>		
<p>Dynodi Amcanion SMART y CTRh</p>	<p>Dynodi deilliannau lefel uwch y CTRh sy'n ddymunol.</p> <p>Dynodwyd o ddogfen gweledigaeth PTCC, a Chynlluniau Llesiant Awdurdodau Lleol</p> <p>Ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Gostwng allyriadau carbon.</li> <li>- Llesiant</li> <li>- Cefnogi busnesau Canolbarth Cymru</li> <li>- Gwella cysylltedd trafnidiaeth</li> <li>- Gwneud cludiant cyhoeddus yn fwy fforddiadwy</li> <li>- Gwella gwasanaethau rheilffyrdd a gwella cysylltedd trawsffiniol</li> <li>- Mynediad cynaliadwy at Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog</li> <li>- Cefnogi'r economi twristiaeth</li> <li>- Cefnogi twf economaidd</li> <li>- Cynyddu teithio llesol</li> <li>- Cefnogi / annog y defnydd o Gerbydau Trydan.</li> <li>- Diogelwch ar y Ffyrdd</li> <li>- Gwella cysylltedd rhwydweithiau dosbarthu nwyddau ac annog</li> </ul>	<p>Ymgynghoriaeth</p>	



Pecyn Gwaith	Disgrifiad	Sefydliad Arweiniol	Prif Ddyddiadau
	dosbarthu nwyddau mwy ar reilffyrdd.		
Llywodraethu	Bydd trefniadau llywodraethu trwy Gyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru ar gyfer datblygu, arwyddo a mabwysiadu'r cynllun. Wedi'i gefnogi gan y Gweithgor Swyddogion CTRh.	CBC – Swyddog CTRh	
Cymeradwyo'r Achos dros newid gan CBC		CBC, gyda chefnogaeth swyddogion awdurdod lleol	Dyddiad i'w gadarnhau
<b>Datblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol</b>			
Dynodi'r Ymyriadau a Pholisïau Lefel Uchel	<p>Dynodi'r polisïau a fydd yn cyflwyno'r amcanion a nodir ac a fydd yn cefnogi cyflwyno Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.</p> <p>1. Mynediad at Gyflogaeth a Thwristiaeth. Gall cludiant cyhoeddus wasanaethu safleoedd cyflogaeth y tu allan i ganol trefi yn wael. Efallai y bydd pobl heb gar yn cael eu heithrio rhag cael mynediad at rai swyddi a chyfleoedd hamdden a thwristiaeth. Mae diffyg darpariaeth bws fin nos ac ar benwythnosau sy'n arwain at anawsterau yn cael mynediad at gyfleoedd cyflogi a dibyniaeth ar y car preifat. Mae angen cynyddol i deithio ac am bellteroedd pellach i gael mynediad at</p>	Etholaeth	<p>Drafft CYN YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS i'w gyflwyno i LIC erbyn 29 Mai 2024.</p> <p><b>Mae risg na fydd y dyddiad hwn yn cael ei ddiwallu.</b></p>

Pecyn Gwaith	Disgrifiad	Sefydliad Arweiniol	Prif Ddyddiadau
	<p>swyddi. Mae'r materion uchod ynghyd â mynediad at gludiant cyhoeddus yn aciwt yng nghanolbarth Cymru o ystyried ei natur wledig iawn a dwysedd poblogaeth isel.</p> <p>2. Mynediad Cynhwysol at Wasanaethau. Mae goblygiadau gan batrymau aneddiadau gwasgaredig ar gyfer hygyrchedd a mynediad at wasanaethau allweddol. O ganlyniad i hyn, mae yna fwy o ddibyniaeth ar y car preifat. Mae diffyg cludiant fforddiadwy i rai cymunedau. Mae angen mynd i'r afael â'r problemau a wynebir gan nifer o bobl wrth gael mynediad at waith, addysg a gofal iechyd. Mae newidiadau mewn lleoliadau gwasanaethau o bwys megis iechyd yn debygol o gynyddu teithio mewn car a gall ynysu rhai cymunedau. Gall heneiddio a phoblogaeth sy'n gostwng mewn rhai lleoedd arwain at dynnu gwasanaethau'n ôl gan arwain at ostwng mynediad at wasanaethau o bwys sy'n arwain at ddiboblogi pellach. Cyfleoedd trwy ddyfeisgarwch a chydweithrediad i wella</p>		

Pecyn Gwaith	Disgrifiad	Sefydliad Arweiniol	Prif Ddyddiadau
